Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>14 IONAWR, 2025 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY,<br>14 JANUARY, 2025 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN THE COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Mrs Wenda Owen- (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Sedd Wag/Vacant Seat-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**
**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod arbennnig a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2024;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2024.

4 **PARTNERIAETHAU STRATEGOL - MEDRWN MÔN** (Tudalennau 21 - 40)

Derbyn cyflwyniad gan Medrwn Môn.

5 **DIOGELU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 41 - 70)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2024/2025** (Tudalennau 71 - 78)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John Ifan Jones, Euryn Morris, Margaret Murley Roberts a Sonia Williams<br><br>**Aelodau Portffolio:**<br><br>Cynghorydd Dyfed W Jones – Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Gweddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Ken Taylor;<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo;<br>Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr (Sector Ysgolion Cynradd);<br>Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig;<br>Mrs Wenda Owen – Yr Eglwys yng Nghymru.<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr;<br>Rheolwr Sgriwtini.<br><br>Mrs Ffion Johnson - Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol;<br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;<br>Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai.<br>Ms Fflur Jones a Mr Alan Hughes – Archwilio Cymru; |

Mr Dyfed Edwards - Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
Mrs Carol Shillabeer, Prif Weithredwr – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

## 2 DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dyfed W Jones ddatgan diddordeb personol yn eitem 4 – Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng : Llif allan o'r Ysbyty ac eitem 5 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan ei fod yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn dilyn cyngor cyfreithiol llwyddodd i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Bu i Mr Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ddatgan diddordeb personol yn eitem 4 – Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng : Llif allan o'r Ysbyty ac eitem 5 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan ei fod yn Aelod Cyswllt o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn dilyn cyngor cyfreithiol llwyddodd i gymryd rhan yn y drafodaeth.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2024 yn gywir.

## 4 ARCHWILIO CYMRU : ADRODDIAD GOFAL BRYS AC ARGYFWNG : LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Ms Fflur Jones a Mr Alan Hughes o Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Cafodd adroddiad Archwilio Cymru ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod Archwilio Cymru wedi cynnal ymchwil i'r Llif Allan o'r Ysbyty - Rhanbarth Gogledd Cymru a'r berthynas rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Arweiniodd hwn at sawl argymhelliad ynghylch sut i hwyluso'r llwybr gwella i gleifion er mwyn i'r gwasanaeth allu bod yn fwy effeithiol ac i ystyried profiad yr unigolion.

Dywedodd Ms Fflur Jones, Archwilio Cymru fod yr adroddiad yn crynhoi sut mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn mynd i'r afael â'r risg o ganlyniad i'r oedi cyn bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty a'r goblygiadau i'r claf o ran gwella, adsefydlu a bod yn annibynnol a mynd i'r afael â'u hanghenion o fewn y gwasanaethau gofal. At hyn dywedodd fod y sefydliadau partner yn deall ac yn dangos ymrwymiad i wella llif cleifion allan o'r ysbyty. Mae gwella llif cleifion allan

o'r ysbyty yn nodwedd allweddol o gynlluniau ar draws y partneriaid, sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng. Mae angen i bartneriaid hefyd wneud y defnydd gorau o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Nododd fod angen i staff Gofal Iechyd gael hyfforddiant cyson. Mae Archwilio Cymru wedi amlinellu 16 o argymhellion o fewn yr adroddiad a chafwyd ymateb cadarnhaol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion canlynol:

- O ran oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, sut mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cymharu â rhanbarthau eraill ar lefel Genedlaethol. Mewn ymateb, dywedodd Ms Fflur Jones fod tudalen 11 o'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau pob 100,000 o'r boblogaeth rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024 sy'n cymharu â'r cyfartaledd drwy Gymru. Mae atodiadau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at gymariaethau ar draws y rhanbarth.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod 10 allan o'r 16 argymhelliad gan Archwilio Cymru yn gofyn am gydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd Archwilio Cymru yn monitro effeithiolrwydd y cydweithio hwn. Dywedodd Ms Fflur Jones mai cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol fydd monitro a dogfennu effeithiolrwydd y cydweithio mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru. Nododd fod sefydliadau'n defnyddio gwahanol systemau i olrhain a monitro yn erbyn yr argymhellion a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru. Mae angen sicrwydd gan Archwilio Cymru fod y gwaith monitro angenrheidiol yn cael ei wneud ynghyd â chynnydd.
- Cyfeiriodd at gyhoeddiad diweddar gan Weinidog Iechyd Llywodraeth Cymru a oedd yn gosod her i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i wella llif cleifion allan o'r ysbyty a gofal cymunedol. Nodwyd bod adroddiad Archwilio Cymru yn cyfeirio at ddiffyg rhannu gwybodaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol. Holwyd a fu gwelliannau o ran rhannu gwybodaeth rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen rhoi trefniadau gwell ar waith wrth rannu gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad. Fodd bynnag, mae sensitifrwydd yn gysylltiedig â gwybodaeth cleifion ac mae angen caniatâd y claf hefyd. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith fod yr adroddiadau'n amlygu mai aros am asesiadau clinigol yw prif achos yr oedi yng Ngorllewin y rhanbarth o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Holodd sut y gall asesiad ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol wella'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a'u rhyddhau ar ôl ychydig ddyddiau heb fod angen unrhyw gymorth arnynt neu ddim ond ychydig o gymorth. Fodd bynnag, mae canran fach o gleifion ag anghenion cymhleth a fydd yn golygu bod anghenion gofal ychwanegol ganddynt a allai arwain at oedi wrth eu rhyddhau o'r ysbyty. Nododd ei fod yn cael ei dderbyn bod angen gwella'r broses hon, a bod staff Gwasanaethau Cymdeithasol bellach yn ymweld ag Ysbyty Gwynedd i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion gan sicrhau bod pobl yn ddiogel yn eu cartref eu hunain ar ôl cael eu rhyddhau. Dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod Rhanbarth y Gorllewin yn ffodus fod yr Awdurdodau Lleol yn barod i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael ag anghenion y cleifion.
- Codwyd cwestiynau ynghylch y prosesau monitro sy'n bodoli o fewn Archwilio Cymru i sicrhau bod yr argymhellion a wnaed yn cael eu bodloni. Mewn ymateb,

dywedodd Ms Fflur Jones mai dim ond i'r cyrff statudol y mae Archwilio Cymru yn gallu gwneud argymhellion a bod disgwyl i'r argymhellion hyn gael eu gweithredu drwy systemau olrhain ac adrodd yr Awdurdod Lleol. Bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn adolygu ac yn ymateb i'r argymhellion a nodir gan Archwilio Cymru. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch sut y bydd Archwilio Cymru yn adrodd ar y gwelliannau wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad. Dywedodd Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru fod y Cyngor yn derbyn adroddiadau mewnol gan y rheoleiddwyr a bydd adroddiadau cynnydd wedi hynny yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nododd fod proses fewnol o fewn yr Awdurdod i ddiweddaru'r Aelodau ar y cynnydd a gyflawnwyd ac y dylid adroddir ar hyn i'r holl Aelodau Etholedig. Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai'r Pwyllgor hwn ofyn i Archwilio Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganfyddiadau gwelliannau'r cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod hwn o fewn 18 mis.

- Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cydweithio â'r Bwrdd Iechyd er budd y bobl sy'n gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod staff o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â staff y Bwrdd Iechyd o leiaf dair gwaith yr wythnos pan fydd cleifion yn barod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Sicrhaodd fod trefn o gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd yn enwedig pan fydd angen cymorth ychwanegol ar rai cleifion ag anghenion cymhleth a phan fydd angen blaenoriaethu pobl o fewn y cymunedau y gallai fod angen ymyrraeth arnynt. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch y camau pellach y gellir eu cymryd i wella'r gwasanaeth yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cymru fod adroddiad Archwilio Cymru wedi ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn hon a bod rhaglen waith wedi ei chreu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad; mae modelau gwaith gwahanol ar y gweill i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty, a rhoi sylw i'w hanghenion.
- Dywedwyd bod CLlLC wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru'n ddiweddar at y ffaith bod bwlch sylweddol o ran cyllid o fewn Gofal Cymdeithasol. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y mae'n bosibl sicrhau bod mwy o gyllid ar gael i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir yn y Sector Gofal Cymdeithasol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o bwysau a gofynion gofal cymdeithasol, ond nid oes digon o gyllid i wneud gwahaniaeth. Dywedodd mai'r gobaith yw y bydd mwy o gydnabyddiaeth o'r pwysau ar ofal cymdeithasol yn denu mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd y Cadeirydd fod CLlLC wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Lywodraeth Cymru ar ran yr holl Awdurdodau Lleol yn mynegi pryderon ynghylch cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol gan nad yw'n gynaliadwy a bod angen mwy o gymorth ariannol.
- Cyfeiriwyd at baragraff 103 yn yr adroddiad lle nodir bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu'r Bwrdd Gofal Brys ac Argyfwng. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r rhaglen chwe nod, gan anelu at sicrhau cynlluniau cydweithredol a pherchnogaeth ymhlith rhanddeiliaid ar draws y system. Darllenodd y Cadeirydd o'r adroddiad '*er i ni gyflwyno sawl cais i'r Bwrdd Iechyd, ni fu modd i ni arsylwi ar y Bwrdd na chael unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig a chan hynny, nid oeddem yn gallu adolygu ei effeithiolrwydd'.* Holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiweddariad ynglŷn â'r mater hwn. Mewn ymateb, dywedodd Ms Fflur Jones nad oedd ymateb wedi dod i law y Bwrdd Gofal Brys ac Argyfwng ond drwy waith mwy diweddar gyda'r Bwrdd Iechyd deellir bod

trefniadau gwahanol ar waith. Dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod mecanweithiau mewnol yn eu lle gan fod pwysau am Ofal Brys ac Argyfwng.

- Cyfeiriwyd at Argymhelliad 10 – Mynd i'r afael â bylchau allweddol o ran capasiti o fewn yr adroddiad. Codwyd cwestiynau p'un ai a oes gan Archwilio Cymru enghreifftiau o arfer gwaith da mewn Byrddau Iechyd eraill. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod gwaith wedi'i wneud o ran arferion gwaith a bod staff Tîm Teulu Môn y Cyngor yn gweithio o Ysbyty Gwynedd i asesu anghenion y cleifion. Nododd ei bod wedi dod yn amlwg nad oes angen cymorth gweithiwr cymdeithasol ar rai cleifion ac y gallent gael eu rhyddhau i ofal eu teuluoedd. Ystyriai fod ymyriadau a thrafodaethau cynnar gyda'r cleifion a'r teuluoedd yn hollbwysig er mwyn gallu rhyddhau cleifion yn gynnar o'r ysbyty. Dywedodd Ms Fflur Jones bod tîm 'arfer da' o fewn Archwilio Cymru sy'n gallu rhannu arferion da. Codwyd cwestiynau pellach, er bod ffocws ar welliannau o fewn data cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gofynnwyd a yw rhai cleifion yn cael eu rhyddhau'n rhy gynnar er mwyn gwella'r data. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Oedolion ei bod yn derbyn na ddylai cleifion gael eu rhyddhau'n rhy gynnar o'r ysbyty a gorfod cael eu haildderbyn wedyn. At hyn dywedodd fod Tîm Gofal wedi ei sefydlu yng Nghaergybi i gynnig gofal i bobl o fewn eu cartrefi ac i roi cefnogaeth pan maen nhw wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Cyfeiriwyd at system WCCIS a oedd yn galluogi Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i allu cyrchu data mewn perthynas â gofal cleifion. Gan y bydd system WCCIS yn cael ei dileu'n raddol, holwyd a fydd system arall ar gael. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn amlwg, gan fod gwahanol systemau digidol o fewn y Bwrdd Iechyd nad oeddent yn gydnaws â system WCCIS. Nododd y rhagwelir y bydd system borth newydd ar gael, ond mae heriau o ran pwy fydd yn talu am system newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Fflur Jones a Mr Alan Hughes am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion sydd yn adroddiad Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 5 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Estynnodd y Cadeirydd Mr Dyfed Edwards, groeso i Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Mrs Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd fod adroddiad wedi ei gyflwyno gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Pwyllgor hwn. Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:

- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bwriedir datblygu cydweithio ymhellach rhwng y Bwrdd Iechyd ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod llais y claf yn bwysig wrth ddelio â'i anghenion gofal.

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr adroddiad yn nodi bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r materion hollbwysig a arweiniodd at ymyrraeth drwy fesurau arbennig. Codwyd cwestiynau ynghylch yr heriau a'r risgiau allweddol a sut y bydd y rhain yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal ei daith barhaus i wella.
- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu a dysgu o enghreifftiau o arfer da mewn meysydd eraill i wella gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig fel Ynys Môn a sut y gall Aelodau Etholedig anfon pryderon eu hetholwyr ymlaen i'r Bwrdd Iechyd.
- Yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd 2023 nodwyd y cytunwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn enwi pwynt cyswllt ar gyfer ymateb i brosesau ymgynghori statudol sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio sylweddol. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r Bwrdd Iechyd wedi enwi pwynt cyswllt i ymateb i'r broses ymgynghori statudol ar geisiadau cynllunio.
- Cyfeiriwyd at yr oedi hir yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a chodwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'r broblem hon.
- Codwyd cwestiynau ynghylch pa enghreifftiau y gall y Bwrdd Iechyd eu darparu i ddangos gwelliant yn niwylliant y sefydliad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf.
- Cyfeiriwyd at y rhestr aros ar gyfer asesiad Anghenion Dysgu Ychwanegol. Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol yn cydweithio i leihau'r rhestr aros.
- Codwyd cwestiynau ynghylch yr effaith ar y gwasanaeth iechyd pan nad yw pobl yn mynychu apwyntiadau meddyg teulu ac ysbyty.
- Codwyd cwestiynau ynghylch trosiant staff o fewn y Bwrdd Iechyd oherwydd pwysau gwaith yn y sector iechyd.
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod y gwasanaeth deintyddol ar gyfer plant dan 16 oed, wedi cau yn Ysbyty Penrhos Stanley yn ddiweddar. Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth a roddir ar gyfer gwasanaethau deintyddol ar gyfer y rhai dan 16 oed ar Ynys Môn.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gellir gwella'r broses gyfathrebu â chleifion sy'n aros am driniaeth.
- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae cyllid ar gyfer gofal hosbis diwedd oes yn cael effaith ar ryddhau cleifion yn effeithiol o'r ysbyty.

Dyma ymateb cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Swyddogion i'r cwestiynau a godwyd:

- Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei fod yn gwerthfawrogi'r cydweithio cadarnhaol rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn ac ymrwymiad Prif Swyddogion y Cyngor i sicrhau perthynas waith dda gyda'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod cydweithio gyda'r Awdurdod Lleol yn hollbwysig i ofal a lles cleifion. Rhoddodd enghraifft o gydweithio gyda'r Awdurdod Lleol sef y prosiect Gofal Sylfaenol a Chymunedol yng Nghaergybi.
- Cytunodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd fod llais y claf yn hollbwysig i wella taith wella'r Bwrdd. Dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod gwaith wedi ei wneud yn ddiweddar o ran Iechyd Meddwl a'r profiad mae pobl wedi ei gael yn

ystod eu sefyllfaoedd anodd. Dywedodd fod y Bwrdd yn dymuno bod yn Fwrdd Iechyd agored, tryloyw sy'n gwrando.

- O ran yr heriau a'r risg allweddol sy'n effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal ei daith barhaus i wella, dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod Asesiad Strwythurol Blynyddol a bod Archwilio Cymru yn paratoi adroddiad ar y cynnydd a gyflawnwyd ynghyd â risgiau a heriau. Nododd fod y cynnydd diweddar wedi arwain at egluro'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw, a bod 5 amcan strategol wedi'u nodi. At hyn, dywedodd gan fod y Bwrdd Iechyd yn dal o dan fesurau arbennig, bod yn rhaid i'r Bwrdd ddangos cynnydd parhaus i Lywodraeth Cymru. Amlinellodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd sut mae angen i'r Bwrdd ddangos diwylliant o daith wella barhaus sy'n gysylltiedig ag Arweinyddiaeth a chynaliadwyedd staff. Nododd fod trosiant uchel wedi bod o fewn Bwrdd y Tîm Arweinyddiaeth dros y blynyddoedd.
- Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch sut y gall Aelodau Etholedig gyfathrebu â'r Bwrdd pan fydd mater yn codi o fewn eu wardiau etholiadol, awgrymodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd y gellid trefnu sesiwn friffio/fforwm i Aelodau Etholedig fynegi eu pryderon.
- O ran cwestiynau ynghylch gwella'r ddarpariaeth Gofal Iechyd mewn ardaloedd gwledig, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd ei fod o'r farn y dylai'r Bwrdd Iechyd arwain y drafodaeth ar sut mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu o fewn ardal wledig ac i ddysgu o arferion da mewn meysydd eraill i wella'r gwasanaeth a ddarperir.
- Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â phwynt cyswllt yn y Bwrdd Iechyd i ymateb i ymgynghoriad statudol ar geisiadau cynllunio sylweddol, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd fod fframwaith wedi'i sefydlu i ymateb i geisiadau cynllunio sylweddol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n trafod gyda'r Arweinwyr Grwpiau y cyswllt rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol pan gyflwynir ceisiadau cynllunio sylweddol gan y gallai 10 i 15 o dai gael effaith sylweddol ar gymuned wledig o ran gwasanaethau iechyd yn yr ardal.
- O ran cwestiynau yn ymwneud â'r oedi hir yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ymatebodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd gan ddweud ei bod yn derbyn bod oedi hir, yn enwedig yn ystod y penwythnosau oherwydd diffyg mynediad at gymorth meddygol arall. Dywedodd mai ar gyfer argyfyngau meddygol yn unig y dylid defnyddio'r Adran Achosion Brys ac y dylai pobl ystyried yn ofalus a oes angen iddynt fynychu'r adran hon. Nododd fod fferyllfa ar gael i roi cymorth, ynghyd â chyngor. Dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod gwasanaeth Gofal Brys ar yr un diwrnod ar gael yn Ysbyty Gwynedd sydd wedi bod yn llwyddiannus. Dywedodd fod angen gwell cyfathrebu â phobl o ran y cyfleusterau eraill sydd ar gael i roi cyngor ar faterion meddygol yn hytrach na mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys sy'n gallu achosi i'r adran fynd yn orlawn gyda chleifion yn aros am gyfnodau hir.
- Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd ynghylch pa enghreifftiau y gall y Bwrdd Iechyd eu darparu i ddangos gwelliant yn niwylliant y sefydliad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd fod angen bod yn agored gyda phobl a staff y Bwrdd yn ystod taith wella'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd eu bod yn cael cymorth arbenigwr ym maes gwella gwasanaethau. Cytunodd fod ymgysylltu â staff yn bwysig mewn unrhyw sefydliad i wella'r gwasanaeth iechyd o fewn y Bwrdd. Cynhaliwyd hyfforddiant ac ymgysylltwyd â staff ac ystyrir y byddant yn gallu ymateb a oes angen gwella diwylliant y sefydliad.

- O ran y cwestiynau a godwyd ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol yn cydweithio i leihau'r rhestr aros ar gyfer asesiad Anghenion Dysgu Ychwanegol, dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod pryder ledled y wlad ynghylch y rhestr aros ar gyfer asesiadau ADY. Roedd yn derbyn bod atgyfeiriadau ar gyfer asesiad ADY yn gallu ymddangos yn broses hir, a bod angen nifer o apwyntiadau i gael diagnosis. Nododd fod Cynhadledd Cymru gyfan i'w chynnal ddiwedd y mis hwn i drafod sut i fynd i'r afael â'r broses asesu ADY. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr oedi cyn cael asesiad ADY yn cael effaith o fewn yr ysgolion ac ar staff a bod angen datrysiad tymor hir.
- Mewn ymateb i'r cwestiynau ynglŷn â'r effaith ar y gwasanaeth iechyd pan nad yw pobl yn mynychu apwyntiad meddyg teulu ac ysbyty, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd fod rhai pobl yn tueddu i fynychu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn hytrach na mynychu apwyntiadau meddyg teulu sy'n achosi i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys fod yn orlawn. Roedd o'r farn bod angen addysgu pobl am yr angen i fynd i apwyntiadau wedi'u trefnu ac y dylai meddygon teulu hefyd dynnu sylw at y broblem o fethu apwyntiadau.
- O ran y cwestiynau ynglŷn â throsiant staff o fewn y Bwrdd Iechyd oherwydd pwysau gwaith yn y sector iechyd, dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod tua 8% o drosiant o fewn y Bwrdd Iechyd bob blwyddyn. Nododd fod rhai staff dan gontract am gyfnod penodol, bod rhai staff yn ymddeol, a bod rhai staff yn cael dyrchafiad o fewn y gwasanaeth iechyd. Yn ddiweddar bu proses recriwtio genedlaethol i recriwtio staff nyrsio. Dywedodd ei bod yn bwysig bod staff yn teimlo bod eu rôl yn un gwerth ei gwneud a'u bod yn gwneud gwahaniaeth a bod eu sgiliau'n cael eu gwerthfawrogi.
- Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â chau'r ddarpariaeth ddeintyddol yn Ysbyty Penrhos Stanley, dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn ddibynnol ar y modelau contractwyr annibynnol ar gyfer darpariaeth ddeintyddol. Nododd fod contractwyr annibynnol yn symud i ffwrdd o'r ddarpariaeth ddeintyddol a bod practisau deintyddol yn dangos diddordeb mewn darparu cyfleusterau deintyddol. At hyn dywedodd nad yw'r ddarpariaeth ddeintyddol yn ddigonol o fewn rhanbarth Gogledd Cymru ond mae 6 practis deintyddol ar Ynys Môn sy'n rhoi gwasanaethau deintyddol brys i'r GIG a gwasanaeth arall nad yw'n frys.
- Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â sut mae modd gwella'r broses gyfathrebu gyda chleifion sy'n aros am driniaeth, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd ei fod yn cytuno bod angen gwella'r cyfathrebu ar draws y Gwasanaeth Iechyd. Dywedodd fod angen gwella profiad cleifion sy'n defnyddio'r system iechyd. Er ei fod o dan fesurau arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella'r ddarpariaeth gyda'r sector iechyd a lles a sicrhau y gellir rhoi'r gofal iechyd gorau posibl i bobl Gogledd Cymru.
- O ran y cwestiynau sy'n ymwneud â pha raddau y mae cyllid ar gyfer gofal hosbis diwedd oes yn cael effaith ar ryddhau cleifion yn effeithiol o'r ysbyty, dywedodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd fod Llywodraeth Cymru'n adolygu eu cynlluniau hyn o bryd o ran sut i ariannu hosbisau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu eu cyllid ar gyfer hosbisau yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Dyfed Edwards a Mrs Carol Shillabeer, am fynychu'r cyfarfod.

**GWEITHREDU : Bod trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal sesiwn briffio/fforwm gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd ac Aelodau Etholedig fel y gall Aelodau fynegi profiadau a phryderon eu hetholwyr o ran y gofal iechyd a ddarperir.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 4),<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 4),<br>Pennaeth Gwasanaeth Tai (ar gyfer eitem 3),<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Rhaglen Ffyniant Bro (EM) (ar gyfer eitem 4),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Cynorthwyydd Cefnogi (Gwasanaethau Democrataidd) (CH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr John Ifan Jones ac Euryn Morris<br><br>Mrs Wenda Owen – Yr Eglwys yng Nghymru;<br>Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr – Ysgolion Cynradd;<br>Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig<br>Rheolwr Sgriwtini (AD). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Daron Owens – Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 3).<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;<br>Cynghorydd Gary Pritchard – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd;<br>Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;<br>Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Diogelu a Newid Hinsawdd;<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a |

Gwastraff;
Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Gwasanaethau Tai.

---

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gydymdeimlo'n ddwys gyda theuluoedd Mr Tony Jones a Mrs Catherine Roberts a fu farw'n ddiweddar ac a oedd wedi bod yn Uwch Swyddogion yn Adran Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim wedi'u derbyn.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN - 2023/2024**

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol bod dyletswydd statudol ar yr Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a diwygiadau dilynol yn neddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaethau Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ag Achub sef y prif awdurdodau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r adroddiad blynyddol yn gyfle i adolygu'r ystadegau a'r heriau a wynebir, a sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddiogelwch cymunedol.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn mai meysydd cyfrifoldeb gwreiddiol y Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol oedd Troseddu ac Anhrefn, Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Ail-droseddu. Dywedodd bod cyfrifoldeb ychwanegol wedi'i gynnwys mewn perthynas â Throsedd Difrifol ac Adolygiadau Lladdiadau Domestig sy'n cael eu hadrodd i'r Swyddfa Gartref. Amlygodd nad oes gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyllidebau penodol ar gyfer prosiectau lleol, a rhaid gwneud cais am grantiau drwy'r Lefel Ranbarthol a Chenedlaethol. Mae blaenoriaethau'r Bwrdd yn seiliedig ar Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel, sef: -

- Atal Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r afael â Throsedd Dreisgar
- Mynd i'r afael â Throseddau Difrifol a Threfnedig
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd.

Aeth ymlaen i nodi bod y Bwrdd Partneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu gan yr Heddlu bob chwarter, a cafodd hyn ei amlygu yn yr adroddiad. Un o dargedau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw adeiladu cymunedau gwydn, diogel ac

iach, sy’n cynnwys gwneud gwelliannau penodol i’r amgylchedd adeiledig a chymryd agwedd arloesol at atal troseddu. Mae’r prosiectau dan y cyllid hwn wedi arwain at ddiweddaru a gosod CCTV newydd yng Nghaergybi a Llangefni, gyda’r nod o wella diogelwch a lleihau trosedd yn y gymuned. Mae £250k wedi’i ddyrannu i Ynys Môn dan y prosiect hwn a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2025. Mae gwaith yn parhau mewn perthynas ag Adolygiadau Lladdiadau Domestig, a chynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth i rannu arfer da.

Wrth ystyried yr adroddiad, aeth y Pwyllgor ati i drafod y materion canlynol: -

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau mae’r Cynllun Gweithredu ddigon grymus i ddelio ag agweddau ar y meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Ynys Môn. Dywedodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ei bod yn hyderus bod y Cynllun Gweithredu ddigon grymus gan fod yr holl sefydliadau partner atebol yn gweithio mewn partneriaeth o fewn y Bwrdd Partneriaeth, a bod adnoddau ar gael. Er nad oes grantiau lleol ar gael, mae’n rhaid i’r Bwrdd fanteisio ar unrhyw gyllid sydd ar gael drwy’r Gronfa Strydoedd Saffach a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedodd y Prif Weithredwr bod cysylltiadau gwaith wedi gwella ymhlith partneriaid y Bwrdd Partneriaeth yn ddiweddar.
- Gofynnwyd am y prosesau sydd ar gael er mwyn delio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson, oherwydd gwelwyd bod cynnydd mewn ymddygiad o’r fath yn enwedig yn ardal Caergybi, a gydag adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol Tenantiaid Tai Cymdeithasol, gyda’r adroddiad yn amlygu gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch defnydd o gyffuriau anghyfreithlon a digartrefedd. Dywedodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol fod y data o fewn yr adroddiad yn cyfeirio at achosion yr heddlu yr adroddwyd amdanynt. Derbyniodd fod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghaergybi, ac efallai na chawsant eu hadrodd i’r heddlu. Mae’r Heddlu’n defnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) i dargedu'r ardaloedd sy'n profi ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson i leihau'r troseddau hyn. Dywedodd fod Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol penodol o fewn Heddlu Gogledd Cymru i fynd i’r afael â throseddwyr mynych. Gwneir gwaith partneriaeth sylweddol gyda'r Adran Addysg o fewn y Cyngor, Cyfiawnder Ieuenctid a Safonau Masnach. Dywedodd fod Safonau Masnach wedi targedu siop sy'n gwerthu fêps yng Nghaergybi a oedd yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth yn yr ardal. Mae’r SCCH a’r Swyddogion Cyswllt Ysgolion wedi bod yn mynychu ysgolion lleol i leihau rhwystrau ac i gysylltu â phlant/pobl ifanc a rhieni. Mae cynllun plismona yng Nghaergybi ac mae cyllid sylweddol wedi dod i law drwy arian Strydoedd Saffach, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Swyddfa Gartref i fynd i'r afael â phroblemau yng Nghaergybi. Dywedodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol y byddai'n fodlon trefnu cyfarfod rhwng yr Aelod Etholedig dros ardal Caergybi a'r Heddlu i drafod ymhellach ac i roi sicrwydd ar y gwaith a wnaed mewn ymateb i'r meysydd problemus. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod pwysau ychwanegol ar wasanaethau o fewn yr Awdurdodau Lleol a'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Partneriaeth i ddod â'r holl asiantaethau allweddol at ei gilydd o ran gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan gymunedau lleol.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed ynghylch adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol Tenantiaid Tai Cymdeithasol, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai nad yw'r data yn yr adroddiad yn cyd-fynd â data'r Gwasanaethau Tai. Nododd bod dau Uwch Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gweithio o fewn yr adran a rhaid ystyried bod y gyfran uchaf o dai cymdeithasol yn bodoli yn ardal Caergybi.

Mewn perthynas â Digartrefedd, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod nifer y bobl sy'n cysgu ar strydoedd Ynys Môn yn isel yn ôl data'r Adran Tai. Fodd bynnag, efallai bod mwy o bobl yn cysgu ar y stryd nad yw'r gwasanaeth yn ymwybodol ohonynt; mae ap ar gael o'r enw 'street-link' a gall y cyhoedd adrodd unrhyw berson sy'n cysgu ar y strydoedd ac mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen at y Cyngor ac asiantaethau eraill i'w galluogi i ymweld â'r person i weld a oes angen cymorth a chefnogaeth arnynt. Fodd bynnag, mater i'r unigolyn yw derbyn y cymorth a roddir. Mae perygl i iechyd yno yn enwedig yn ystod tywydd oer ac maent yn agored i brofi trosedd annerbyniol yn eu herbyn tra'n cysgu ar y strydoedd.

Dywedodd y Cynghorydd Pip O'Neill fod 'canolfan ieuenctid' yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar gyfer ardal Caergybi fel bo pobl ifanc dros 13 oed ei fynychu ac yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach nag achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref, ac i ymwneud yn fwy cadarnhaol o fewn y gymuned.

- Cyfeiriwyd bod cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau cyffuriau yn ardal Llangefni. Nodwyd bod croeso i osod y camerâu CCTV yn Llangefni ond bod angen cydweithio gyda gwahanol asiantaethau i fynd i'r afael â'r broblem gan fod problemau cyffuriau o fewn amgylchedd eu cartref yn effeithio ar blant ifanc. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol fod cais wedi ei gyflwyno i'r Gronfa Ffyniant Cyfranddaliadau i osod offer teledu cylch cyfyng newydd yn Llangefni a bydd y camerâu hyn yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â'r heddlu. Dywedodd fod cyfarfod aml-asiantaeth i'w drefnu i drafod materion yn Llangefni a bydd diweddariad yn cael ei roi wedi hynny. Mae Llangefni yn rhan o brosiect 'Adfer' sy'n denu cyllid gan y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymryd cyffuriau. Gwnaed sylwadau bod angen adnoddau ariannol i fynd i'r afael â throseddau gyda Swyddogion Heddlu ychwanegol a chamerâu cylch cyfyng ym mhob ardal o'r cymunedau.
- Dywedwyd bod cynnydd mewn troseddau casineb, yn enwedig troseddau casineb crefyddol ar Ynys Môn, na chyfeirir atynt yn yr adroddiad. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog (SAC) ei bod wedi gwahodd cynrychiolydd o'r Heddlu i fynychu cyfarfod nesaf yr ACA. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol y byddai'n trafod y mater o drosedd casineb gyda'r Heddlu ac y byddai'n diweddaru'r Aelodau wedi hynny.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn achosion o hunanladdiad. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol drwy ddweud bod Gweithgor Rhanbarthol yn ei le sy'n cael ei yrru gan y Cydlynwyr Hunan-niwed a Hunanladdiad fel rhan o'r Bwrdd Iechyd, a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'n codi'r pryderon hyn o fewn y Gweithgor Rhanbarthol. Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai'r Pwyllgor ofyn i'r Pwyllgor Gwaith ofyn am ddiweddariad

gan y Grŵp Rhanbarthol, dan arweiniad y Bwrdd Iechyd ar y gwaith a'r trafodaethau ynghylch atal hunanladdiadau.

- Cyfeiriwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at y gostyngiad mewn troseddau rhyw, ond ystyriwyd efallai nad yw rhai o'r troseddau hyn yn cael eu hadrodd a bod llawer mwy o achosion na'r rheiny sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu.
- Cyfeiriwyd hefyd fod cynnydd mewn troseddau cerbydau ar Ynys Môn sy'n peri pryder.
- Cyfeiriwyd hefyd at 'droseddau sifil' gyda phobl yn mynd i mewn i gartref pobl ac yn tynnu lluniau o eiddo pobl a'u postio ar-lein. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol y byddai'n codi mater 'trosedd sifil' o fewn y Bwrdd Partneriaeth yn ei gyfarfod nesaf.
- Cyfeiriwyd nad oedd ystadegau ar faterion trosedd o fewn ardaloedd gwledig o fewn yr adroddiad. Nodwyd bod angen camerâu teledu cylch cyfyng symudol i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn cymunedau gwledig Ynys Môn.
- Codwyd cwestiynau ynghylch cywirdeb y data o ran dwyn o siopau yn yr adroddiad a pham nad yw siopau'n adrodd am ddigwyddiadau i'r Heddlu. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol er ei bod yn derbyn bod cynnydd mewn digwyddiadau o ddwyn o siopau nad ydynt yn cael eu hadrodd i'r Heddlu, nododd mai'r data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yw'r digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt. Dywedodd fod cynnydd wedi bod mewn achosion o ddwyn o siopau yng Nghaergybi yn ddiweddar oherwydd newid perchnogaeth a bod Polisïau Cenedlaethol yn cael eu dilyn o fewn y siop hon. Mae'r Heddlu lleol yng Nghaergybi hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r siop hon i ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael ag achosion o ddwyn o siopau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol y byddai'n gwerthfawrogi pe byddai data cymharol gyda Gwynedd yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

Sicrhaodd Dirprwy Brif Weithredwr y Pwyllgor y byddai ef, fel Cadeirydd blaenorol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn, yn codi pryderon gan y Pwyllgor hwn yng nghyfarfod nesaf Bwrdd y Bartneriaeth.

**PENDERFYNWYD:-**

- **nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol a chefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn i'r dyfodol;**
- **gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ofyn am ddiweddariad gan y Grŵp Rhanbarthol, a arweinir gan y Bwrdd Iechyd, ar y gwaith a'r trafodaethau ynghylch atal hunanladdiadau.**

**CAMAU: Fel y nodwyd uchod.**

## 4 RHAGLEN FFYNIANT BRO YNYS MÔN – MESUR CYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Arweinydd a’r Aelod Portffolio dros Ddatblygu Economaidd fod Llywodraeth newydd y DU wedi dewis cael gwared ar y term ‘Levelling Up’ gyda’r holl gyllid bellach yn cael ei hyrwyddo fel ‘Ariennir gan Lywodraeth y DU’. Dywedodd fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar y rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU sy’n cael ei darparu gan Esgobaeth Bangor yn Eglwys Sant Cybi yng Nghaergybi. Cyfeiriodd ymhellach at agoriad llwyddiannus y ciosgau sydd wedi'u hadnewyddu ar Draeth Newry, Caergybi gyda phedwar busnes yn gweithredu o'r ciosgau hyn.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion a ganlyn:-

- Gofynnwyd a all y rhaglen Ffyniant Bro effeithio ar economi Ynys Môn a chymunedau lleol. Ymatebodd Rheolwr y Rhaglen ei bod yn gynamserol ystyried effaith y newid mewn llywodraeth ar hyn o bryd. Nododd fod y gwaith o adnewyddu'r ciosgau ar Draeth Newry, Caergybi wedi agor gyda 4½ swydd wedi'u creu a 7 swydd adeiladu wedi'u caniatáu yn ystod y gwaith adnewyddu ar y ciosgau. Prynwyd deunyddiau adeiladu hefyd yn bennaf gan fasnachwyr adeiladu lleol.
- Codwyd cwestiynau ynghylch y mesurau sydd mewn lle ar hyn o bryd i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwaith partneriaeth lleol effeithiol y tu ôl i'r rhaglen. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig er mwyn rhoi gwybod i breswylwyr Caergybi am y gwaith a wneir yn yr ardal. Nododd ymhellach fod cwmni cysylltiadau cyhoeddus, Ateb Cyntaf Cyf, wedi'i benodi i hyrwyddo'r rhaglen a chodi ymwybyddiaeth o gerrig milltir allweddol. Mae'r Tîm Cyflawni Rhaglen yn gweithio'n agos gyda phob un o'r Partneriaid Darparu i ddatblygu eu prosiectau a chynullir cyfarfod misol i fonitro materion a risgiau allweddol. Roedd o'r farn bod gweithio ar y cyd â'r Partneriaid Darparu wedi gosod sylfaen ar gyfer prosiectau ynys gyfan.
- Gofynnwyd i ba raddau y mae'r newid diweddar yn Llywodraeth y DU yn effeithio ar y Rhaglen bresennol a'r rhagolygon ar gyfer cyllid/rhaglenni yn y dyfodol mewn cymunedau lleol eraill. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen nad oes unrhyw newid i’r Rhaglen oherwydd y newid diweddar yn y llywodraeth gyda dim ond enw’r rhaglen wedi’i newid i ‘Ariennir gan Lywodraeth y DU’. Nododd fod prosiectau Arfor a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dal i fynd rhagddynt, fodd bynnag, y tu hwnt i 2026 mae'n ansicr a fydd cyllid ar gael tuag at y prosiectau hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cyllid ychwanegol am flwyddyn ychwanegol yn cael ei gyhoeddi yn y Gyllideb ym mis Hydref. Fodd bynnag, disgwylir i weld pa drefniadau ariannu fydd yn eu lle wedi hynny tuag at raglen o'r fath a'r gobaith yw y bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i'r Cyngor i benderfynu sut i’w wario.
- Dywedwyd bod nifer o brosiectau wedi gorfod cael eu hail-dendro gan fod y costau tendro yn llawer uwch na'r gyllideb oedd ar gael. Codwyd cwestiynau ynghylch y risgiau na fydd modd cyflawni'r prosiectau. Ymatebodd Rheolwr y Rhaglen fod cyllid a'r amserlen gyflawni a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn ffactor risg wrth gyflawni'r prosiectau hyn. Fodd bynnag, mae'r Swyddogion yn hyderus y gellir cyflawni'r prosiectau presennol ac mae'r sefydliadau partner hefyd wedi bod yn mynd ati i sicrhau cyllid grant ar gyfer eu prosiectau. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod y Tîm Ffyniant Bro wedi ymgysylltu'n barhaus â'r sefydliadau partner i sicrhau bod cwmpasau

rhai prosiectau'n cael eu haddasu i sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn gyraeddadwy.

- Gofynnwyd a fydd cyllid ar gael i gymunedau gwledig allu cyflwyno prosiectau o fewn y cynllun ‘Ariennir gan Lywodraeth y DU’. Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei fod yn ansicr, ar hyn o bryd, ynghylch y cyllid grant a fydd ar gael. Defnyddir y cyllid Ffyniant Gyffredin i dalu am brosiectau mewn ardaloedd gwledig y gellir mynd i'r afael â hwy yn y tymor byr tra'n aros a fydd cyllid pellach ar gael i fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig.
- Cyfeiriwyd bod yr adroddiad yn amlygu mai un o amcanion strategol prosiect Sant Cybi yw sefydlu caffi menter gymdeithasol a chyfleusterau banc bwyd. Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y bydd y banc bwyd arfaethedig yn gweithredu mewn partneriaeth â Banc Bwyd presennol Ynys Môn yng Nghaergybi neu a fydd hon yn fenter annibynnol newydd. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch pwy fydd yn darparu'r caffi menter gymdeithasol a'r cyfleusterau banc bwyd gan fod Esgobaeth Bangor wedi penodi Rheithor newydd ar Eglwys Sant Cybi yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd o ran darparu Rhaglen Caergybi a ariennir gan Lywodraeth y DU;**
- **Nodi gweithrediad y Rhaglen Caergybi a ariennir gan Lywodraeth y DU yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU;**
- **Cydnabod rôl barhaus y Cyngor wrth gefnogi Partneriaid Cyflawni’r Rhaglen.**

**CAMAU: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 CYNLLUN STRATEGOL MODERNEIDDIO’R GWASANAETHAU OEDOLION

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol fod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i wynebu heriau sylweddol, gyda’r galw’n cynyddu ac adnoddau’n lleihau. Mae Cynllun y Cyngor yn cadarnhau’r ymrwymiad i ofal cymdeithasol a llesiant, ac mae’n amserol cydnabod sut i foderneiddio’r gwasanaeth i gyflawni dyletswyddau’r Cyngor yn effeithiol ac effeithlon. Nod y Cynllun Strategol yw cadarnhau'r llwybr tuag at ddatblygu elfennau o'r gwasanaeth a sicrhau eu bod yn briodol a fforddiadwy i'r dyfodol, tra'n parhau i ddod yn Ynys Oed Gyfeillgar. Wrth i’r pwysau a’r galw barhau i gynyddu, a phoblogaeth yr Ynys heneiddio ynghyd â phobl ag anableddau dysgu a chorfforol, rhaid ystyried sut y gall yr Awdurdod foderneiddio’r gwasanaethau a ddarperir. Tra bod Strategaeth Moderneiddio’r Gwasanaethau Oedolion yn heriol bydd angen gweithio gyda phartneriaid allweddol, y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector a sefydliadau eraill i wireddu’r weledigaeth o fewn y Strategaeth er budd trigolion yr Ynys.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y prif faterion a ganlyn:-

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau all y Gwasanaeth gyflawni'r holl amcanion o fewn y Strategaeth a beth yw'r risgiau a'r rhwystrau ariannol i'r Gwasanaeth. Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol bod rhaid cydnabod nad y genhedlaeth hŷn sydd angen y gwasanaethau a ddarperir yn unig, ond bod pobl ifanc hefyd angen gwasanaethau'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n rhan sylweddol o'r galw am y gwasanaetha, a bydd bodloni'r angen yn heriol. Dywedodd y bydd angen ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth am gost is i'r Cyngor gan nad yw'r cyllid yn cynyddu er bod y galw am y gwasanaeth yn cynyddu. Bydd gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a sefydliadau eraill yn hollbwysig i lwyddiant y Cynllun Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion.
- Gofynnwyd, oherwydd cynnydd yn y galw am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, pa sicrwydd all y Gwasanaeth ei ddarparu bod cyllid cyfalaf digonol ar gael i fodloni'r galw a sut y bydd y Gwasanaeth yn denu grantiau a chefnogaeth ariannol allanol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol er y derbynnir bod Gwasanaethau Oedolion yn gorwario bod yn rhaid mynd i'r afael â'r galw am y gwasanaethau. Nododd y bydd angen addasu'r gwasanaeth i sicrhau gwell gwasanaeth drwy weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a sefydliadau eraill.
- Cyfeiriwyd ei bod yn her cael llety ar gyfer cwpl pan fyddant yn wynebu gorfod cael gofal o fewn cartref preswyl. Derbyniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod her o ran llety i cyplau o fewn sector cartrefi preswyl oherwydd costau sy'n gysylltiedig â'r galw am ystafell ddwbl o'r fath o fewn y cartref preswyl. Dywedodd y Prif Weithredwr, tra bod y cydweithio rhwng y Gwasanaeth Tai a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn dda, bod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau tai fforddiadwy a thai cymdeithasol i fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio. Nododd fod angen i'r ddwy Lywodraeth fynd i'r afael â'r system Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Codwyd cwestiynau pellach ynghylch pryd y bydd awdurdodau lleol yn cael eu hariannu'n deg i fynd i'r afael â phoblogaeth yr Ynys sy'n heneiddio. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y fethodoleg o fewn setliad Llywodraeth Cymru yn nodi'r boblogaeth sy'n heneiddio yn hytrach na phoblogaeth sy'n tyfu ar Ynys Môn. Nododd i'r mater gael ei godi gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn pan ymwelodd ag Ynys Môn yn ddiweddar ac mae angen addasu'r fformiwla ariannu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- Gofynnwyd a oes gan y sector gofal preifat ddigon o staff. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod heriau staffio tebyg yn y sector preifat a chyhoeddus. Nododd bod newid wedi bod gyda mwy o bobl yn dymuno gweithio o fewn maen gofal gan eu bod yn gweld y Gwasanaeth Gofal fel rhagolygon gyrfa. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Choleg Menai lle mae cwrs Gofal Arbennig ar gael i fyfyrwyr; darperir profiad gwaith o fewn Cartrefi Gofal yr Awdurdod i'r myfyrwyr hyn
- Cyfeiriwyd bod y Cynllun Strategol yn sôn am godi ymwybyddiaeth o fentrau oed-gyfeillgar trwy bartneriaethau gyda mentrau cymdeithasol a busnesau lleol. Codwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau sydd ar waith i alluogi'r gwaith partneriaeth hwn i lwyddo er budd cymunedau'r Ynys. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y fenter oed-gyfeillgar yn cael ei hariannu gan grant. Mae gwaith wedi'i wneud gyda chaffis a gyrwyr tacsis/bws i hyrwyddo'r fenter oed-gyfeillgar. Dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r

cyfleusterau Dementia a ddarperir ar yr Ynys mewn partneriaeth â'r trydydd sector.

- Cyfeiriwyd bod y Cynllun Strategol yn trafod yr angen i ddod o hyd i gyfleusterau addas ar gyfer ail-leoli'r gwasanaeth seibiant i unigolion ag anableddau dysgu. Codwyd cwestiynau ynghylch pa heriau allweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth geisio gwireddu'r amcan hwn a pha strategaeth y bydd y Gwasanaeth yn ei defnyddio i fynd i'r afael â'r heriau hyn a'u goresgyn gan fod yn rhaid i bobl ag anableddau dysgu gael eu lletya mewn Siroedd eraill i dderbyn gofal seibiant. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn cydnabod bod diffyg cyfleusterau ar yr Ynys i gynnig gofal seibiant a byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Nododd y ceisir arian cyfalaf i alluogi'r Awdurdod i brynu eiddo preifat i gynnig cyfleusterau i bobl ag anableddau dysgu. Dywedodd ymhellach fod menter i brynu eiddo ar gyfer gofal seibiant ar yr Ynys.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod 'Cynllun Strategol Moderneiddio'r Gwasanaethau Oedolion 2024-2029' yn cael ei fabwysiadu.**

## 6 BLAEN RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AR GYFER 2024/2025

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'w ystyried, yn nodi Blaen Rhaglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/2025.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y blaen rhaglen waith ar gyfer 2024/2025;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yn hyn o ran gweithredu'r blaen rhaglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Pwyllgor Craffu Adfywio
14 Ionawr 2025

# STRATEGIC PARTNERSHIPS

Regeneration Scrutiny Committee
14th January 2025

MEDRWN MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# MEDRWN MÔN

Un o 19 CGS a ariennir ledled Cymru i gefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol i gyflawni yn erbyn 4 piler allweddol:

- Llywodraethu da
- Gwirfoddoli
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu

One of 19 CVC's funded across Wales to support community groups and voluntary organisations to deliver against 4 key pillars:

- Good governance
- Volunteering
- Sustainable funding
- Engaging and influencing

# STRWYTHUR A STAFF

- Sefydliad aelodaeth
- Elusen Gofrestredig a Chwmni Cyfyngedig drwy Warant
- Arweinir gan y Bwrdd Rheoli
- 6 aelod o staff ar Gyllideb Craidd
- 5 aelod o staff ar rolau a ariennir gan brosiectau
- 1 aelod o staff wedi'i ariannu drwy BIPBC



# STRUCTURE & STAFF




- Membership organisation
- Registered Charity and Company Limited by Guarantee
- Led by Management Board
- 6 members of staff on Core Budget
- 5 member of staff on project funded roles
- 1 member of staff funded through BCUHB


# 2023-4

**66%**
Cyllido Cynaliadwy/
Sustainable Funding

**23%**
Llywodraethu Da/
Good Governance

**5%**
Ymgysylltu a dylanwadu/
Engaging & Influencing

**4%**
Gwirfoddoli/
Volunteering



**£353,000**
o gyllid wedi ei gefnogi/of funding supported

**£200,000**
o arian allweddol wedi'i ddosbarthu/
of key funds distributed

**52**
cynnal sesiynau hyfforddi am ddim/
free training sessions held

# GWERTH YCHWANEGOL/ ADDED VALUE

Yny cyfnod 2023-24 dosbarthwyd £200,000 gennym mewn cronfeydd allweddol a oedd yn cynnwys:

- Grant Cymorth Ieuenctid
- Mannau Cynnes
- Gweithgareddau Hydrefol
- Cyllid Cychwynnol Cynllunio Lle
- GwirVol
- SPF Mannau Gwyrdd

In 2023-24 period we distributed £200,000 in key funds which included:

- Youth Support grant
- Warm Spaces
- Autumn Activities
- Seed funding for Place Shaping
- GwirVol
- SPF Green Spaces



# EFFAITH PROSIECT/ PROJECT IMPACT

**Trafnidiaeth Cymundeol /Community Transport**

- **£24,328** – Cyllid BSSG/BSSG funding
- **5** Cynllun gan gynnwys Car Linc/ Schemes including Car Linc
- **99** o wirfoddolwyr / volunteers
- **2413** siwrneiau /journeys

Car Linc Môn
MWY NA CHLUDIANT CYMUNEDOL • MORE THAN COMMUNITY TRANSPORT

**Technoleg mewn Gofal /Technology in Care**

- **£40,000** – Cyllid RIF & PBC /RIF & BCU funding
- **4** hybiau cymunedol wedi eu cysylltu/ Community hubs connected
- **72.5%** canlyniadau lles cadarnhaol/positive wellbeing outcomes
- **4000** cofrestru ar gyfer ap GIG Cymru/sign ups to NHS Wales app






# EFFAITH PROSIECT/PROJECT IMPACT

**87.5%**
Canlyniadau lles cadarnhaol/Positive wellbeing outcomes

**67%**
Teimlo'n hapusach/ Feeling happier

**65%**
Bodlon ar fywyd/ Satisifed with life

**62%**
Llai pryderus/ Less anxious




## Linc Cymunedol Môn Community Link

- **£641.909.70** - 7 partner ariannu /funding partners 2022 -25
- **200 -300** atgyfeiriadau newydd y flwyddyn /new referrals a year
- **208** grwpiau cymunedol wedi'u rhestru fel ymyrraeth /community groups listed as intervention
- **331** presgripsiynau /prescriptions
- **325** cyfeiriadau /signposts

01.

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

# PARTNERSHIP WORKING

# PARTNERIAETHAU STRATEGOL
# STRATEGIC PARTNERSHIPS

- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn Public Service Board
- Iechyd Cyhoeddus Cymru/Public Health Wales
- BIPCB/BCUHB
- Heddlu Gogledd Cymru/North Wales Police



# CYFARFODYDD BYRDDAU PARTNERIAETH
# PARTNERSHIP BOARD MEETINGS

- Grwp Strategol Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar / Strategic Prevention &
- Early intervention Group
- Bwrdd Ymgysyllu ac Ymgynghori / Engagement & Consultation Board
- Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar/Resourceful Communities Partnership
- Grwp Cynllunio Traws Glwstwr /Pan Cluster Planning group
- Fforwm Iaith/ Welsh Language Forum

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA'R CYNGOR
# WORKING IN PARTNERSHIP WITH THE COUNCIL







- Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r bartneriaeth wedi datblygu'n sylweddol
- Wedi'i nodi fel arfer gorau ar sawl achlysur
- Strategol a gweithredol
- Dod yn ffordd o weithio yn hytrach na phrosiectau cyflogedig
- Cysoni blaenoriaethau a rhannu adnoddau
- Cynllunio a chyflawni yn y dyfodol

- Over last 10 years the partnership has developed considerably
- Cited as best practice on numerous occasions
- Strategic and operational
- Become a way of working as opposed to paid projects
- Aligning priorities & sharing resources
- Future planning and delivery

# 02. ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU I GYMUNEDAU

# OUTPUTS AND OUTCOMES FOR COMMUNITIES

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'
Cynllun Cyngor 2023-28

'Creating an Anglesey that is healthy and prosperous where people can thrive' Council Plan 2023-28

- Gyrwyr strategol a gweithredol
- Datblygu ethos a ffordd newydd o weithio
- Gwrando a grymuso ein cymunedau
- Cymunedau dyfeisgar a gwydn
- Strategic and operational drivers
- Developing an ethos & new way of working
- Listening & empowering our communities
- Resourceful and resilient communities








# CYNLLUNIO LLE & CFFG/PLACE SHAPING & SPF



















Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# YMGYNGHORIAD TRAFNIDIAETH CYMUNEDOL
# COMMUNITY TRANSP0 RT CONSULTATION




- Nodi effaith ar gymunedau
- Edrych ar atebion creadigol
- Cysylltu â Cynllunio Lle
- Nodi arfer da a gwersi a ddysgwyd






- Identifying impact on communities
- Looking at creative solutions
- Linking to Place Shaping
- Identifying good practice and lessons learned



# LLWYFAN MAP CYHOEDDUS
# PUBLIC MAP PLATFORM

- Mapio seiliedig ar leoedd
- Canmoliaeth ac yn ychwanegu gwerth at Cynllunio Lle
- Gwella gweithio mewn partneriaeth
- Ychwanegu adnoddau

- Place based mapping
- Compliments & adds value to Place Shaping
- Enhancing partnership working
- Adding resources



LLWYFAN MAP CYHOEDDUS PUBLIC MAP PLATFORM

0 3 .

# Y DYFODOL

# THE FUTURE

S

W

C

G

## STRENGTHS

- Priorities
- Engagement
- Communication

- Showcasing previous successes
- Learning by doing
- Sharing good practice

## WEAKNESSES

- Third sector compact
- Wider partnership buy-in

## OPPORTUNITIES

## THREATS

- Timescales
- Funding
- Strategic landscape

## CRYFDERAU

- Blaenoriaethau
- Ymgysylltu
- Cyfathrebu

- Arddangos llwyddiannau blaenorol
- Dysgu trwy wneud
- Rhannu arfer da

## GWENDIDAU

- Compact Trydydd sector
- Cefnogaeth ehangach gan bartneriaeth

## CYFLEOEDD

## BYGYTHIADAU

- Amserlenni
- Ariannu
- Gweledigaeth strategol

O

T

C

B

# Cyflwr y Trydydd Sector

**Galw ar holl Sefydliadau Trydydd Sector, Grwpiau Gwirfoddol a Grwpiau Cymunedol.**

**Mae Medrwn Môn yn ceisio darganfod sut olwg sydd ar y Trydydd Sector a'r Sector Gwirfoddol ar yr Ynys.**




**Fel rhywun sy'n gysylltiedig â grŵp cymunedol/mudiad gwirfoddol, mae eich barn am ein cefnogaeth yn bwysig i ni.**

"Os ydym yn deall sut olwg sydd ar y Trydydd sector nawr, yna gallwn wneud yn siŵr ei fod yn symud i'r man lle mae ei angen fwyaf yfory."

**Helpwch ni drwy gwblhau'r arolwg drwy ddilyn y ddolen. Os byddai'n well gennych gopi papur e-bostiwch sheree@medrwnmon.org neu ffoniwch 01248 724944.**

# State of the Third Sector

**Calling all Third Sector Organisations, Voluntary groups and Community groups.**

**Medrwn Môn are trying to find out what the Third and voluntary Sector looks like on the Island.**




**As someone associated with a community group/voluntary organisation, your opinion about our support is important to us.**

"If we understand what the Third sector looks like now, then we can make sure that it moves to where it's most needed tomorrow."

**Please help us by completing the survey by following the link.
If you would prefer a paper copy please email sheree@medrwnmon.org or call 01248 724944.**

# DIOLCH
# THANK YOU

Unrhyw gwestiynau?
Any questions?

01248 724944
post@medrwnmon.org
www.medrwnmon.org

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Ionawr 2025 |
| **Pwnc:** | Diogelu Corfforaethol - diweddariad |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â materion diogelu corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelodau Portffolio:** | Y Cynghorydd Alun Roberts, Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Siân Peacock, Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd Ymarfer<br>sianpeacock@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Mae'n berthnasol i bob Aelod Lleol |

| **1 - Argymhelliad/argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br><br>**A1 – Trwy archwilio'r wybodaeth a rannwyd ac adolygu datblygiadau yn ystod y 9 mis diwethaf, ceisio sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau Diogelu Corfforaethol yn llawn.** |

| **2 - Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae'n gysylltiedig â chwe Amcan Strategol y Cyngor. Mae Atal a Diogelu wedi'u rhestru yn y Cynllun Corfforaethol 2023-28 fel un o Egwyddorion Cyffredinol allweddol y Cyngor - ***"Mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae cyfrifoldeb ar bob gwasanaeth a gweithiwr yn y cyngor i ddiogelu pobl, beth bynnag yw eu rôl neu eu teitl. Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed."*** |

| **3 - Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Yr effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar:

- grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg]**

## 4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Pa sicrwydd y gellir ei roi ein bod ni fel Awdurdod Lleol yn cyflawni ein rhwymedigaethau Diogelu Corfforaethol?
2. Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion hyfforddiant Diogelu Corfforaethol? Sut mae hyn yn cael ei fonitro?
3. Pa strategaethau fyddwch chi'n eu defnyddio i sicrhau ymatebion cynhwysfawr pan fyddwch yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc, er mwyn deall eu profiadau trwy ddefnyddio dull diogelu sy'n canolbwyntio ar y plentyn?
4. Sut fyddwch chi'n sicrhau fod busnesau a gwasanaethau lleol yn mynd ati i rannu gwybodaeth a datblygu ymyraethau i gefnogi diogelu corfforaethol, fel y nodir yn yr adroddiad?

## 5 Cefndir / Cyd-destun

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn diffinio diogelu fel hyn:

> ***"Atal ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon"***

Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth, canllawiau statudol a Chodau Ymarfer yng Nghymru, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynorthwyo staff mewn gwahanol asiantaethau a ledled Cymru i gymhwyso deddfwriaeth a chanllawiau diogelu yn eu hymarfer. Maent yn darparu cyngor ynglŷn â nodi ac ymateb i bryderon am blant unigol sydd mewn perygl ac oedolion sydd mewn perygl. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn gallu ymateb i bryderon diogelu am blant ac oedolion unigol, mae angen gweithio i sicrhau fod gwasanaethau, lleoedd a mannau yng Nghymru yn atal risgiau ac yn hyrwyddo diogelwch.

| |
|---|
| Mae gan Gynghorau rôl statudol hanfodol bwysig o ran diogelu plant ac oedolion ac mae ganddynt gyfrifoldeb allweddol i arwain ar atal cam-drin plant a hyrwyddo eu llesiant. Ni all diogelu fod yn wirioneddol effeithiol oni bai ei fod yn cael ei ymgorffori ym mhob Cyfarwyddiaeth, Adran a Thîm o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan bawb - yn weithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr ac Aelodau Etholedig ran i'w chwarae o ran amddiffyn plant ac oedolion bregus rhag niwed, boed hynny yn y cartref, neu du allan i'r cartref.<br><br>Ar lefel gorfforaethol, y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol sy'n gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd y trefniadau diogelu o fewn y Cyngor. Mae'n rhaid i'r Bwrdd adrodd i Aelodau - gan roi trosolwg o berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Sgriwtini herio a chraffu ar waith a pherfformiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Bydd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn arwain ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Bwrdd Corfforaethol. |

| **6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg]** |
|---|
| **6.1** Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 |
| **Amherthnasol** |
| **6.2 Effeithiau posibl ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| **N/A** |
| **6.3 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg** |
| **Amherthnasol** |
| |
| **7 - Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 - Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1** - Cynllun Hyfforddi Wythnos Ddiogelu - Tachwedd 2024<br>**Atodiad 2** - Adolygiad o'r Cynllun Diogelu Corfforaethol - 2022 - 2024 |

| **9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

## 1. Diogelu Corfforaethol

Nod yr adroddiad hwn yw esbonio pa drefniadau sydd ar waith gan Gyngor Sir Ynys Môn i sicrhau fod pob un o'i Gyfarwyddiaethau a gweithwyr yn chwarae eu rhan o ran diogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion a allai fod mewn perygl o niwed.

Mae'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol 2022 - 2024 ynghlwm ac mae wedi cael ei ddiweddaru. Mae 11 o'r 26 gweithred wedi'u cwblhau ac mae 15 yn mynd rhagddynt a byddant, felly, yn rhan o'r Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2024 - 2028 fydd yn cael ei lansio ar 1 Ebrill 2025.

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn ymwybodol o ddiogelu yn eu gwaith o ddydd i ddydd i'r Cyngor a'u bod yn gwybod sut i godi pryderon.

## 2. Arweinyddiaeth a Diwylliant

Mae arweinyddiaeth glir o ran diogelu corfforaethol ym mhob haen o fewn y Cyngor. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol, sydd yn cynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yn cyfarfod bob chwarter. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol sydd yn cadeirio'r bwrdd.

Yn ddiweddar mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymweld â phob Gwasanaeth i hyrwyddo sut *"mae diogelu'n fusnes i bawb"*. Mae pob Gwasanaeth yn ymwybodol o'i ddyletswyddau diogelu a sut y dylid ymateb i faterion diogelu. Anogir staff i gyfeirio unrhyw ymholiadau diogelu at Teulu Môn yn y lle cyntaf. Mae'r model hwn yn caniatáu i ni gael isadeiledd clir er mwyn i staff godi pryderon diogelu trwy'r sianel briodol.

Isod ceir y materion a gododd o'r sesiwn a'r cynllun gwaith:

| Gweithred | Gan bwy | Pryd |
|---|---|---|
| Roedd staff eisiau mwy o wybodaeth am Teulu Môn.<br><br>Mae Teulu Môn yn cynhyrchu animeiddiad byr ynglŷn â "beth yw Teulu Môn". | Rheolwr Gwasanaeth - Ymyrraeth Gynnar ac Atal | Stondin Teulu Môn yn y Cyntedd yn ystod Wythnos Ddiogelu 2024 a digwyddiadau eraill er mwyn codi proffil y gwasanaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai Contractau'r Cyngor gynnwys datganiad i dynnu sylw at yr hyn a ddisgwylir gan gontractwyr os byddant yn dod ar draws Materion Diogelu a'r ddyletswydd i adrodd. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Diwedd Ch4 |
| Mae angen adolygu hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Yn ystod Chwarter 4 |
| Cynyddu Cyfathrebu mewn perthynas â materion **diogelu** a'i raeadru i staff yn Y Ddolen/Newyddlen Staff. | | Mae trafodaethau wedi cychwyn er mwyn ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn. |

## 3. <u>Cymdogaethau a Chymunedau</u>

Mae gan Gynghorau rôl holl bwysig o ran deall eu cymuned leol a gweithredu mewn rôl arweiniol i gefnogi cymunedau i ymateb i heriau y gallant eu hwynebu ar wahanol adegau.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau fod plant, pobl ifanc ac oedolion yn byw, dysgu, gweithio, chwarae ac ymweld mewn ystod eang o leoliadau, gan gynnwys y cartref, mewn ysgolion ac amgylcheddau dysgu eraill, cymdogaethau, cymunedau a lleoedd ar-lein. Er bod y cysylltiadau, gweithgareddau a'r rhyngweithredoedd hyn yn rhan o dyfu i fyny a dysgu rheoli risg, yn aml gall y risgiau yn yr amgylcheddau hynny fod yn fwy difrifol. Ychydig iawn o ddylanwad fydd gan rieni dros y cyd-destunau hyn a phrofiadau pobl ifanc o niwed tu allan i'r cartref. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cadeirio panelau camfanteisio ar Blant misol ac mae hyn yn enghraifft o sut rydym yn gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid mewn lleoliadau gwirfoddol a statudol i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau wedi'u cydlynu gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth leol.

Mae angen i staff Cyngor Sir Ynys Môn fod â dealltwriaeth sylfaenol da am gam-fanteisio a beth ddylid ei wneud os ydynt yn gweld risg diogelu posib, neu os ydynt yn pryderu am risg diogelu o'r fath, wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd.

## 4. Busnesau a Gwasanaethau Lleol

Mae'r gallu i weithio gyda phartneriaethau, rhannu gwybodaeth a datblygu ymyraethau yn hanfodol ac mae'n golygu gweithio mewn lleoedd a chyd-destunau nad ydynt yn cael eu cysylltu'n draddodiadol â gofal cymdeithasol plant neu oedolion. Gallai gwestai, bariau a bwytai, siopau tecawê sydd ar agor yn hwyr yn y nos, siopau diodydd trwyddedig, sinemâu neu safleoedd trwyddedig eraill ddod i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd mewn perygl o niwed. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn credu bod pobl sy'n gweithio yn y diwydiannu hyn mewn sefyllfa unigryw i weld arwyddion camfanteisio a mathau eraill o gamdriniaeth.

Yn ystod y 12 mis nesaf, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn dymuno cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu rhaglen i godi ymwybyddiaeth am gamfanteisio ar blant mewn cymunedau busnes, megis gwestai, safleoedd trwyddedig, cwmnïau tacsi, siopau a chartrefi gofal. Byddwn yn ceisio ymgorffori pob ffurf o gamfanteisio ar blant, gan gynnwys camfanteisio rhywiol a throseddol.

Rydym yn anelu i rymuso busnesau a sefydliadau trwy uwchsgilio eu staff fel y gallant fynd i'r afael â chamfanteisio er mwyn amddiffyn plant ac oedolion bregus trwy godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant.

## 5. Caffael

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i sicrhau ymarfer effeithiol, sy'n cynnwys gosod safonau clir ac effeithiol a gofynion cadarn ar gyfer cydymffurfio â chontractau, gyda'r holl ddarparwyr allanol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Wrth gomisiynu gwasanaethau rydym yn sicrhau fod gan yr holl gontractwyr sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc neu oedolion fesurau diogelu ar waith sy'n cynnwys:

- Mae gwiriadau DBS yn cael eu cynnal ar lefel briodol (lefel sylfaenol neu uwch)
- Polisïau diogelu
- Hyfforddiant diogelu
- Arferion cadwyn cyflenwi moesegol
- Polisi Caethwasiaeth Fodern

Bydd yr holl ddogfennau tendro bellach yn cynnwys y paragraff canlynol.

*“Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn sicrhau bod eu staff yn deall bod dyletswydd ar bob ymarferydd i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl a bod dyletswydd arnynt i adrodd unrhyw bryderon am gam-drin neu esgeulustod sy’n cael ei amau yn y sefyllfaoedd hyn, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae’r cam-drin yn cael ei amau’n unig."*

## 6. <u>Llywodraethu, Caffael a Rheoli Perfformiad</u>

Mae trefniadau diogelu corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys:-

Bwrdd Strategol Diogelu Corfforaethol sy’n cynnwys y Tîm Uwch Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth ac sy’n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bob chwarter.

Isod mae rhestr o rai o’r pynciau a drafodwyd yn ystod 23/24:

- Cynnydd yn yr adroddiadau o Drais Domestig ar hyd a lled rhanbarth Gogledd Cymru
- Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol
- Diogelu mewn lleoliadau Addysg
- Caffael a Diogelu
- Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae’r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol, sy’n cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan y Rheolwr Gwasanaeth - Tai Cymunedol, yn cynnwys swyddogion o wahanol adrannau yn y Cyngor. Mae’r grŵp hwn yn gyfrifol am ddrafftio’r cynllun gweithredu diogelu corfforaethol a sicrhau fod camau o fewn y cynllun gweithredu hwn yn cael eu cwblhau. Mae’r bwrdd diogelu gweithredol hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau diogelu corfforaethol statudol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i fod yn aelod gweithredol o Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydweithio effeithiol rhwng asiantaethau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau amddiffyn, hyrwyddo gwasanaethau cymorth amlasiantaethol effeithiol a defnyddio hyfforddiant rhyngasiantaethol a rhaeadru dysgu ac ymchwil er mwyn helpu i adeiladu gweithlu amlasiantaethol mwy hyderus a gwybodus.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gynrychioli hefyd ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac is-grwpiau amrywiol, gan gynnwys y Grŵp Cyflawni Lleol (Môn a Gwynedd), y Grŵp Polisi a Gweithdrefnau, yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

sydd wedi cymryd lle'r Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion yn ddiweddar. Y broses hon bellach yw'r fframwaith ar gyfer adolygu achosion lladdiad domestig, Lladdiad ag Arf Ymosodol a Lladdiad Iechyd Meddwl. Mae'r Swyddog Hyfforddi sy'n gyfrifol am hyfforddiant Diogelu corfforaethol yn mynychu'r is-grŵp Datblygu'r Gweithlu.

Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio:
Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio a gynhelir bob chwarter dan gadeiryddiaeth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Un o brif bwrpasau'r bwrdd hwn yw darparu arweinyddiaeth strategol mewn perthynas â strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Camfanteisio Troseddol a Chaethwasiaeth Fodern. Mae'r bwrdd hefyd yn cynnal trosolwg o'r Ddyletswydd Trais Difrifol statudol, a strategaeth ymateb i Drais Difrifol Gogledd Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn atgyfnerthu unrhyw brosiectau allweddol perthnasol sy'n rhan o raglen waith y bwrdd.

Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol 2025-2028:
Bydd cynllun gweithredu diogelu corfforaethol 2025 - 2028 yn sicrhau bod gwybodaeth a gesglir yn y cyfarfodydd amrywiol hyn yn cael ei rhannu gydag aelodau'r bwrdd diogelu corfforaethol gweithredol a gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Bydd y cynllun Diogelu corfforaethol 2025-2028 hefyd yn sicrhau fod diogelu yn thema trawsbynciol o fewn rheoli perfformiad, gan sicrhau bod diogelu'n cael ei wreiddio ar draws y Cyngor cyfan. Bydd dulliau archwilio hunanasesu'n cael eu cyflwyno er mwyn caniatáu i bob adran fesur effeithiolrwydd eu trefniadau diogelu corfforaethol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddadansoddi gwybodaeth o bob un o'r cyfarwyddiaethau mewn perthynas â hyfforddi'r gweithlu, adroddiadau gan adrannau ynglŷn â phryderon a nodwyd a heriau sy'n dod i'r amlwg, boed yn heriau thematig neu'n heriau cyngor cyfan.

## 7. <u>Datblygu'r Gweithlu</u>

Mae dull diogelu corfforaethol wedi'i wreiddio mewn perthynas â datblygu'r gweithlu.

- Mae gwiriadau DBS bob amser yn cael eu cynnal ar gyfer rolau penodol er mwyn amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl.
- Mae system gadarn ar waith i sicrhau fod gwiriadau cyn cyflogi'n cael eu cwblhau.

- Mae yna swyddog hyfforddi dynodedig sy’n delio gyda hyfforddiant diogelu corfforaethol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu’r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae’r Grŵp Diogelu Corfforaethol Gweithredol wrthi’n diweddaru’r polisi diogelu er mwyn sicrhau fod y safonau hyfforddi hyn yn dod yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob gweithiwr. Trafodir yr eitem hon yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol ym mis Chwefror 2024.

**Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i’r strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae’n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau’r hyfforddiant ar-lein sylfaenol ar drais yn erbyn menywod fel rhan o’u proses gynefino. Mae’n ofynnol i staff rheng flaen gymryd rhan mewn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Lefel 2 a/neu Lefel 3. Yn ogystal â hyn, mae angen i Aelodau Etholedig dderbyn hyfforddiant Lefel 6.

**Hyfforddiant Prevent:**

Mae’r holl staff yn derbyn hyfforddiant Prevent sylfaenol yn ystod y broses gynefino. Bydd angen i ni sicrhau fod yr holl weithwyr yn ymwybodol o ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Atal Terfysgaeth a Diogelwch 2015, ac mae angen i bob gweithiwr fod yn hyderus o ran adnabod arwyddion radicaleiddio a gwybod sut i adrodd am hynny. Bydd y cynllun hyfforddi’n cael ei gyflwyno i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Chwefror 2025 a bydd y cynllun hwn hefyd yn cynnwys briff i Aelodau Lleol gan y Swyddfa Gartref ac Atal Terfysgaeth ar y proffil atal terfysgaeth lleol ac asesiad risg o’r sefyllfa

**Caethwasiaeth Fodern:**

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ffiaidd sydd yn aml yn guddiedig. Mae’n cynnwys caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfodaeth a llafur gorfodol a masnachu pobl. Gall gael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr. Mae angen i ni sicrhau fod yr holl weithwyr yn cwblhau’r hyfforddiant ar-lein a ddatblygwyd yn ddiweddar sydd ar gael gan y Swyddfa Gartref. Ar hyn o bryd rydym yn cydweithio gyda Fforwm Gwytnwch Gogledd Cymru mewn perthynas ag ymarfer Caethwasiaeth Fodern fydd yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2025.

**Yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol:**

Mae'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn cael ei hystyried yn gyfle da i Gyngor Sir Ynys Môn hyrwyddo diogelu ymysg staff a chontractwyr. Gweler ynghlwm fanylion yr hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod yr wythnos ddiogelu ym mis Tachwedd 2024.

Mae'r data isod yn tynnu sylw at nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol yn ystod 2023 - 2024.

| **Gwasanaeth** | **Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)** | **Prevent** | **Caethwasiaeth Fodern** | **GDPR** | **Ymwybyddiaeth Seiber** |
|---|---|---|---|---|---|
| **OEDOLION** | 100% | 100% | 100% | 100% | 98% |
| **PLANT** | 92% | 91% | 91% | 92% | 91% |
| **TRAWSNEWID CORFFORAETHOL** | 97% | 97% | 96% | 97% | 93% |
| **BUSNES Y CYNGOR** | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO** | 87% | 78% | 78% | 79% | 98% |
| **TAI** | 91% | 89% | 91% | 91% | 86% |
| **DYSGU** | 77% | 76% | 76% | 76% | 74% |
| **UNED DDARPARU** | 85% | 82% | 83% | 83% | 79% |
| **RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | 90% | 89% | 90% | 90% | 90% |
| **ADNODDAU** | 99% | 96% | 99% | 99% | 97% |
| **YSGOLION** | 62% | 46% | 55% | 53% | 46% |
| **UWCH REOLWYR** | 100% | 89% | 89% | 89% | 67% |

| Cyfanswm | 76% | 68% | 72% | 72% | 66% |
|---|---|---|---|---|---|

## 8. Dull Diogelu sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

Yn ystod y 12 mis nesaf, rydym eisiau cryfhau'r berthynas sydd gennym gyda phlant a phobl ifanc Môn, i sicrhau ein bod yn gwrando arnynt a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Trwy ymgynghori â phlant a phobl ifanc bydd y Cyngor mewn gwell sefyllfa i ddeall eu safbwyntiau a'u profiadau o ran pa gamau ymarferol y gall Cyngor Sir Ynys Môn eu cymryd i'w cadw'n ddiogel rhag niwed tu allan i'r cartref. Rydym yn anelu i wneud hyn trwy ymgynghori â phlant a phobl ifanc trwy:

- Gynghorau ysgol
- Grwpiau cyfranogi Plant sy'n Derbyn Gofal
- Digwyddiadau ymgynghori lleol

## 9 Y Camau Nesaf.

- Adolygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Diogelu Corfforaethol Gweithredol a sicrhau fod yr holl adrannau'n cael eu cynrychioli.

- Y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol ar gyfer 2025 - 2026 i'w gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i'w gymeradwyo yn ystod Ch4.

- Y Polisi Diogelu Corfforaethol a'r Cynllun Hyfforddiant Diogelu i'w hadolygu a'u cyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i'w cymeradwyo yn ystod Ch4.

**BYRDDAU DIOGELU GOGLEDD CYMRU**

## Wythnos Ddiogelu 2024 – Tabl o Ddigwyddiadau

#safeguardingwales #DiogeluCymru

| Dyddiad | Asiantaeth | Teitl y Digwyddiad | Lleoliad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun, 11 Tachwedd 2024 | BDGC | Hyfforddiant ar gyfer Cadeirydd Panel ac Adolygwyr Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUS) | Coed Pella, Bae Colwyn | Ymestyn sgiliau a chymhwysedd a datblygu hyder wrth gyflawni rôl Adolygydd neu Gadeirydd Panel mewn Adolygiadau ADUS. |
| Dydd Llun, 11 Tachwedd 2024 | BDGC | Diogelu Cymhleth | Ar-lein | Nina Maxwell. Bydd y gweithdy'n amlygu canfyddiadau ymchwil a nodwyd wrth siarad â phobl ifanc sydd wedi cael eu hecsbloetio'n droseddol yng Nghymru, rhieni plant sydd wedi cael eu hecsbloetio a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn awdurdod lleol a gwasanaethau gwirfoddol ledled Cymru. |
| Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024 | BDGC | Hyfforddiant Amrywiaeth Diwylliannol ac Arferion Niweidiol - BAWSO | Ar-lein | Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar sut y dylai unigolion a systemau ymateb yn barchus ac yn effeithiol i bobl o bob **diwylliant**, iaith, dosbarth, hil, cefndir ethnig, crefydd a ffactorau amrywiaeth eraill. |
| Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024 | BDGC | Chwilfrydedd Proffesiynol | Ar-lein | Gyda Paul Jones, Y Bont |
| Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024 | BDGC | Ymgysylltu â Thadau | Ar-lein | Gyda Paul Jones, Y Bont |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2024 | BDGC | Hunan-esgeulustod, Celcio a'r Gyfraith | Ar-lein | Gyda Laura Pritchard Jones |
| Dydd Iau, 14 Tachwedd 2024 | BDGC | Tueddiadau cyffuriau yng Ngogledd Cymru a Goblygiadau Diogelu | Ar-lein | Adferiad |
| Dydd Iau, 14 Tachwedd 2024 | BDGC | Protocol Herbert | Ar-lein | Sesiwn Fer |
| Dydd Iau, 14 Tachwedd 2024 | BDGC | Gweithdy Hunan-esgeulustod | Ar-lein | Ymarferwyr i ddod ag achosion i'w trafod gyda Michael Preston Shoot |
| Dydd Gwener, 15 Tachwedd 2024 | BDGC | Hyfforddiant i Aelodau Panel ADUS | Coed Pella, Bae Colwyn | Ymestyn sgiliau a chymwyseddau a datblygu hyder er mwyn cyflawni rôl Aelod Panel mewn Adolygiadau ADUS. |
| Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2024 | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) | Canfyddiadau ymchwil ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol | Ar-lein | |
| | | | | |

**Diogelu Corfforaethol**

**Cynllun Gweithredu 2022 - 2024**

Tudalen 54

**Cyflwyniad**

Mae’r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol yn adeiladu ar lwyddiannau ei ragflaenydd ac mae’n ymgorffori agendâu ehangach. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar weithredu ar lefel yr awdurdod cyfan. Nid yw camau gweithredu unigol y gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaethau unigol yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn: gan y byddant yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Cyflawni’r Gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn: a chânt eu monitro felly. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar faterion traws-wasanaethau: a meysydd allweddol y dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnal trosolwg ohonynt. Yn ychwanegol at y Dyletswyddau Diogelu a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae cyfeiriad at faterion diogelu ehangach. Gellir gweld crynodeb byr o’r meysydd hynny yng nghefn y cynllun hwn.

**Strwythur y Cynllun Gweithredu**

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno yn erbyn 6 thema: gan gefnogi dull cydgysylltiedig o gyflawni'r camau gweithredu ar draws yr Awdurdod Lleol.

| Thema | Rhif yr Amcan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol | Amcan 1 | Cymorth, polisïau a gweithdrefnau adrodd lefel uchel o fewn y Sefydliad. |
| Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth Sgiliau Staff a Hyfforddiant | Amcan 2 | Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni ei ddyletswyddau diogelu'n effeithiol - trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau. |
| Gweithlu Diogel | Amcan 3 | Gweithlu sy'n cael ei recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn. |
| Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol | Amcan 4 | Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau cydnabyddedig, fel bod swyddogion yn deall beth sy'n rhaid neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol a bod terfynau disgresiwn proffesiynol yn cael eu diffinio. |
| Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir | Amcan 5 | Mae'r Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contractau yn cyd-fynd â Chod Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.<br><br>Sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pob darparwr yn arfer ei gyfrifoldebau diogelu yn effeithiol. |

Dangosyddion Statws COMG sy'n cyfeirio at gynnydd Rhaglenni/Prosiectau

| | | |
|---|---|---|
| | **COCH** | **Hwyr**<br>Oedi o fwy na phedair wythnos yn erbyn camau gweithredu / amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol.<br>Materion / risgiau sylweddol a allai atal y prosiect rhag cael ei gwblhau mewn pryd neu o fewn y gyllideb. |
| | **OREN** | **Ar ei hôl hi**<br>Oedi o fwy na phythefnos yn erbyn camau gweithredu / amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol.<br>Penderfyniadau sy'n ofynnol gan Uwch-swyddog Cyfrifol/ Cyfarwyddwr a / neu'r Bwrdd. |
| | **MELYN** | **Yn unol â'r amserlen**<br>Mae'r prosiect yn unol â'r amserlen ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau mewn pryd. |
| | **GWYRDD** | **Cwblhawyd**<br>Gweithred/tasg/prosiect wedi'i gwblhau. |
| | **GLAS** | **HEB DDECHRAU** |

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol**
**Amcan 1 - Cymorth, polisïau a gweithdrefnau adrodd lefel uchel o fewn y Sefydliad**

| | Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn Pryd | Cynnydd | Statws COMG |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Mae'r ddyletswydd Channel, fel swyddogaeth statudol awdurdod lleol (Adran 36 o'r Ddeddf Atal Terfysgaeth a Diogelwch), wedi'i chynnwys yng nghyfansoddiad yr awdurdod lleol. | Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Swyddog Monitro (Pennaeth Busnes y Cyngor) | 31 Rhagfyr 2022 | Mae angen i'r Bwrdd Strategol gymryd camau i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau | |
| 1.2 | Mae'r ddyletswydd Channel (fel rhan o adroddiadau Prevent) wedi'i chynnwys o fewn trefniadau llywodraethu'r awdurdod lleol:<br><br>Adroddiad rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i aelodau ar drefniadau diogelu o fewn yr awdurdod a sut mae'r rhain yn gweithio, a beth sydd angen ei wella. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Rhagfyr 2022 | Mae angen i'r Bwrdd Strategol gymryd camau i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau. | |
| 1.3 | Cryfhau hunan arfarnu blynyddol ar gyfer gwasanaethau ac adrodd i fyrddau gweithredol a strategol -<br><br>- Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn y broses Herio Gwasanaeth. | Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad | 31 Mawrth 2023 | **Adolygiad 11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'n cynllun gweithredu nesaf. | |
| 1.4 | Pob Gwasanaeth i adrodd i'r Bwrdd Gweithredol ar gynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu hwn a'r Polisi Diogelu Corfforaethol. | Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | Parhaus | Mae mwy o wasanaethau yn adrodd ac mae'r cam hwn yn ennill momentwm. Hyd yma - Tai: Gwasanaethau Dysgu: Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff: Rheoleiddio: Mae Diogelwch Cymunedol a Thrawsnewid wedi adrodd. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn trosglwyddo i'n cynllun gweithredu nesaf a byddwn yn annog pob gwasanaeth i gyflwyno adroddiadau blynyddol yn hytrach nag adroddiadau chwarterol. | |
| 1.5 | Mae'r Gwasanaethau yn cynnal sampl ar hap/ gweithgaredd sicrwydd i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu polisïau ac arferion diogelu yn gyson:-<br><br>Meysydd a awgrymir:-<br><br>Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu<br>Asesiadau Risg - Gweithlu Diogel | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Mawrth 2023 | Ar hyn o bryd rydym yn ystyried pa feysydd i ganolbwyntio arnynt y tro hwn.<br><br>Mae holl staff Cyswllt Môn wedi cwblhau hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn ogystal â staff ychwanegol yn yr adran Adnoddau Dynol.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn trosglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd er mwyn sicrhau bod yr holl Reolwyr yn rhoi'r polisi gweithlu diogel ar waith, yn ogystal ag annog staff i fynychu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. | |
| **2** | **Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth**<br>**Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol – drwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau** | | | | |

| | Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn Pryd | Cynnydd | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig, gan gynnwys Caethwasiaeth Fodern a Prevent. | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | Parhaus | Ni fu'r Porth Polisi ar waith ers 2022, oherwydd problem weithredol, felly bu'n anodd cael gafael ar ddata cywir. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i roi ar Monitor.<br><br>Mae'r broblem gyda'r Porth Polisi bellach wedi'i datrys. | Cyflwynir y data yn y prif adroddiad. |
| 2.2 | Cydlynu rhaglen gweithgareddau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu. | Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol, Lisa Capper - a grŵp tasg a gorffen. | 31 Rhagfyr 2022 | Rhaglen yn ei lle/yn cael ei chydlynu.<br><br>Mae angen cadarnhau meysydd i ganolbwyntio arnynt yn 2024 - Roedd rhaid canslo'r rhan fwyaf o sesiynau Wythnos Ddiogelu 2023 oherwydd niferoedd isel. Mae angen ystyried hyn wrth drefnu digwyddiadau wythnos ddiogelu eleni.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn un barhaus gan fod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn ddigwyddiad blynyddol. Rydym wedi cytuno i leihau nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos er mwyn gwella niferoedd.<br><br>Gall holl aelodau'r bwrdd diogelu Corfforaethol gefnogi | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | a chyfrannu at drefniadau'r wythnos Ddiogelu. | |
| 2.3 | Cwblhau a Lansio'r adran Diogelu Corfforaethol ar Monitor. | Sefydlwyd Grŵp Tasg | 31 Rhagfyr 2022 | Safle wedi'i adeiladu ac yn fyw. Byddwn yn adolygu a diwygio cyn i ni gadarnhau bod y weithred hon wedi'i chwblhau.<br><br>Mae angen diweddaru llawer o'r wybodaeth ar y tudalennau hyn.<br><br>**11.09.2024**<br>Cwblhawyd y weithred hon. | |
| 2.4 | Adolygu'r wybodaeth gyhoeddus ar Ddiogelu ar wefan yr Awdurdod Lleol. | Grŵp Tasg | 30 Medi 2023 | Mae llawer o'r wybodaeth ar y tudalennau hyn angen ei diweddaru.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithredu hon wedi'i chwblhau, ond er hynny mae angen diweddaru'r wybodaeth yn barhaus. | |
| 2.5 | Cwblhau'r adolygiad o'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol a'i roi ar waith. | Uwch Reolwr, Swyddog Diogelu a Hyfforddi | 31 Mawrth 2023 | Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau ymarfer mapio'r gweithlu er mwyn sefydlu hyfforddiant grŵp priodol ar gyfer pob rôl o fewn yr awdurdod lleol.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a Thrais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | | | | |
| 2.6 | Bod uwch arweinwyr yr Awdurdod Lleol – Aelodau ac Uwch Swyddogion – yn cwblhau Lefel 6 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Holi a Gweithredu – drwy gyfres o glipiau fideo. | Uwch Dîm Arweinyddiaeth Penaethiaid Gwasanaeth Aelodau | 30 Medi 2022 | Uwch Swyddogion ac Aelodau sydd newydd gael eu penodi i gwblhau. | |
| 2.7 | Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau Lefel 1 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) drwy E-ddysgu neu'r llyfrynnau – gan gynnwys y staff hynny sy'n newydd i'r awdurdod. | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2023 | 80%<br>100% o staff y gwasanaeth trawsnewid. Mae data ar gyfer y modiwl gorfodol yn cael ei adolygu a'i adrodd bob chwarter. | |
| 2.8 | Cyflwyno Lefel 2 Gofyn a Gweithredu<br>▪ Bydd rhaid i wasanaethau adnabod y rhai sydd mewn sefyllfa i ofyn a gweithredu.<br>▪ Sefydlu cynllun ar gyfer cyflwyno Lefel 2 yn yr holl wasanaethau, mewn grwpiau blaenoriaeth, er mwyn cyfrannu at y cynllun rhanbarthol. | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth gyda chymorth yr Uned Datblygu'r Gweithlu | 31 Mawrth 2023 | Mae Grŵp 2 yn cael ei gyflwyno.<br><br>Mae'r angen yn parhau i Wasanaethau nodi staff sydd mewn rolau lle y gallant Ofyn a Gweithredu. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib i adrodd yn gywir a nodi pwy sydd eto i gwblhau hyfforddiant L2.<br><br>**11.09.2024**<br>Bydd y weithred hon yn trosglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 3 | **Gweithlu Diogel**<br>**Amcan 3 - Gweithlu wedi'i recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn** | | | | |
| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn Pryd** | **Cynnydd** | |

Tudalen 61

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau trefniadau cadarn mewn perthynas â<br>- Cynnal cofnod canolog o swyddi y mae gwiriad DBS yn ofynnol ar eu cyfer: gan gynnwys trefniadau gwirio a rheoli digonol i adnabod unrhyw achos o fethu â chydymffurfio.<br>- Cael a gwirio geirdaon mewn perthynas â swyddi gweithgareddau a reoleiddir<br>- Niferoedd sy'n cofrestru ar hyfforddiant diogelu<br>- P'un a yw asesiadau risg ffurfiol wedi'u cwblhau a bod mesurau yn eu lle cyn i weithiwr ddechrau gweithio mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes datgeliad DBS ar gael<br>- P'un a oes mesurau ac asesiadau risg ffurfiol ar waith pan geir pryderon diogelu am weithwyr presennol, boed yn amheuon neu'n bryderon hysbys. | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2023 | Nid yw cynrychiolwyr gwasanaethau ar y Bwrdd Gweithredol wedi nodi unrhyw bryderon ynglŷn â rhoi'r weithred hon ar waith yn eu gwasanaethau.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 3.2 | Cefnogaeth i staff sy'n gweithio ym maes diogelu plant ac oedolion yn dilyn digwyddiad difrifol.<br>Mapio trefniadau perthnasol ym mhob gwasanaeth yn erbyn gofynion y canllawiau, a nodi unrhyw gamau gweithredu gofynnol. | Y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i sefydlu grŵp tasg a gorffen. | 31 Mawrth 2023 | **11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |

| | **Cefnogaeth ac Ymyraethau Effeithiol**<br>Amcan 4 - Rhoi Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau cyffredinol, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid ei wneud, neu y gellir ei wneud, mewn amgylchiadau penodol a diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn Pryd** | **Cynnydd** | |
| 4.1 | Cynnal Gwybodaeth Broffesiynol<br>- Atgoffa Ymarferwyr - adnoddau ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC).<br>- Dylai staff gofrestru i dderbyn y newyddlen wythnosol gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.<br>- Ap Diogelu Cymru wedi'i lawrlwytho ar gyfrifiaduron personol/gliniaduron.<br>*Fforwm Amlasiantaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol, Wrecsam* | Y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i atgoffa eu gwasanaethau bod angen cydymffurfio. | 31 Medi 2022 | Anfonwyd neges ar y Ddolen yn ystod yr wythnos yn cychwyn 13 10 22.<br>Byddwn yn gofyn i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru mewn rhyw wythnos a yw nifer y cofrestriadau gan CSYM wedi cynyddu.<br><br>Gofyn i aelodau'r bwrdd Gweithredol hyrwyddo hyn yn eu gwasanaethau.<br><br>**11.09.2024**<br><br>Bwletin/newyddlen Diogelu **newydd** CSYM i'w rannu gyda'r holl staff - pa mor aml a'r awdur i'w cytuno yn y cynllun gweithredu newydd. | |
| 4.2 | Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Protocol Amlasiantaethol - Gweithio gyda Theuluoedd sy'n rhoi'r Argraff o Gydymffurfio – BDPGC.<br>**Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu**<br>*Fforwm Amlasiantaethol i Weithwyr Proffesiynol, Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol<br>**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Gwasanaethau Oedolion: Gwasanaethau Tai: Y Gwasanaeth Dysgu** | 31 Rhagfyr 2022 | Tynnwyd sylw staff at gynnig BDGC ar gyfer yr wythnos ddiogelu.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 4.3 | Codi ymwybyddiaeth o bolisi Diogelu Plant Anabl BDPGC<br><br>**Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu** | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2022 | Nid yw'n rhan o gynnig BDGC eleni - bydd angen ystyried digwyddiad lleol i godi ymwybyddiaeth. | |

Tudalen 63

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Fforwm Amlasiantaethol i Weithwyr Proffesiynol, Wrecsam* | | | **11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 4.4 | Celcio<br>Hyrwyddo ymwybyddiaeth o Brotocol Celcio BDPGC<br>**Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu**<br><br>*Fforwm Amlasiantaethol i Weithwyr Proffesiynol, Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2022 | Mae sesiwn gyda Michael Preston Shoot - sydd yn awdurdod yn y maes hwn - yn cael ei threfnu ar gyfer CSYM a bydd manylion yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos ddiogelu.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 4.5 | Codi ymwybyddiaeth am ddogfen Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni; Protocol Amlasiantaethol Gogledd Cymru - Rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a/neu sy'n cam-drin sylweddau.<br>**Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu**<br><br>*Fforwm Amlasiantaethol i Weithwyr Proffesiynol, Wrecsam* | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2022 | Tynnwyd sylw staff at gynnig BDGC ar gyfer yr wythnos ddiogelu. Mae'r sesiynau yn llawn - efallai y bydd angen ystyried cynnig sesiynau lleol hefyd.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 4.6 | **Gwasanaethau Dysgu**<br>Protocol ar gyfer rheoli cynlluniau presenoldeb a'r broses drosglwyddo i sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo'n llyfn rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth Lles Addysg. | Cyfarwyddwr Addysg | 31 Mawrth 2023 | Mae gan bob dalgylch Swyddog Lles Addysg a enwir sy'n cynorthwyo ysgolion i nodi a chefnogi disgyblion sydd â phroblemau presenoldeb. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Protocol ar gyfer cofnodi absenoldebau.<br><br>Dylai'r gwasanaeth Lles Addysg fonitro plant sy'n absennol o'r ysgol a'r rhai sydd wedi'u cofnodi'n bresennol, ond sy'n gwneud gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd.<br><br>Dylid goruchwylio tiwtoriaid yn y cartref a dylent fynychu hyfforddiant diogelu.<br><br>*Fforwm Amlasiantaethol i Weithwyr Proffesiynol, Wrecsam* | | | Mae gweithio mewn partneriaeth gref yn gadarn ac yn unol â'r polisi presenoldeb sy'n cael ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd.<br><br>Mae'r protocol cofnodi absenoldebau wedi'i gynnwys yn y polisi absenoldebau.<br><br>Mae gan Diwtoriaid Cartref fynediad at hyfforddiant diogelu, yn yr un modd â staff cynhwysiant eraill. | |
| 4.7 | Codi ymwybyddiaeth, drwy hyfforddiant, o'r llwybrau cyfeirio a chanllawiau arfer da er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch caethwasiaeth fodern a'r ddyletswydd i gyfeirio gan ddefnyddio'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM) pan geir pryder ynghylch masnachu pobl at ddibenion cam-fanteisio. | Swyddog Gwella Ymarfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Mawrth 2023 | Llwybr Rhanbarthol i'w gytuno erbyn Tachwedd 2022. Gall hyfforddiant ddilyn.<br>Cynigiwyd sesiynau hyfforddi ar y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol yn ystod yr wythnos ddiogelu.<br><br>**11.09.2024**<br><br>Bydd y weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |
| 4.8 | Mae angen adolygu'r Polisi Ataliaeth Corfforaethol. | Y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen. | 30 Mehefin 2023 | Mae modelau ymyrraeth gorfforol yn cael eu hadolygu.<br><br>**11.09.2024**<br>Ni thrafodwyd y mater hwn yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol gan ei fod yn | |

Tudalen 65

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | fater i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig ac mae polisi'n bodoli'n barod sydd yn cydymffurfio â rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru. | |
| 4.9 | Canllawiau Arfer Da ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus anarbenigol yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy'n cyflawni troseddau yn erbyn menywod a'r rheiny sy'n cyflawni trais domestig a thrais rhywiol. – Bydd pob Gwasanaeth yn ystyried rhwymedigaethau'r Canllawiau o'u safbwynt nhw. Er bod rhai materion yn benodol i rai gwasanaethau, mae eraill yn berthnasol i'r sefydliad cyfan - Materion Iechyd a Diogelwch; materion yn ymwneud â Pholisi Cam-drin Domestig y Gweithlu; Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth. | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2023 | **11.09.2024**<br>Mae'r agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn gryf a byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant GOFYN A GWEITHREDU i swyddogion perthnasol fel rhan o'n cynllun datblygu'r gweithlu.<br><br>Dysgu o Adolygiadau Lladdiadau Domestig ac adolygiadau ffurfiol eraill. | |

**Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir**

Amcan 5 Sicrhau arferion diogel a moesegol wrth gaffael a rheoli contractau mewn gwasanaethau a gomisiynir er mwyn bodloni gofynion diogelu.

| | **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn Pryd** | **Cynnydd** | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Llunio datganiad ysgrifenedig blynyddol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad a'r gadwyn gyflenwi. | Dirprwy Brif Weithredwr | 30 Medi 2023 | **11.09.2023**<br>Mae hyn yn ofyniad statudol ac ni fydd yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu newydd. Dirprwy Brif Weithredwr CSYM yw perchennog y weithred. | |
| 5.2 | Darparu hyfforddiant ar y Cod Ymarfer i swyddogion perthnasol er | Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol | 31 Rhagfyr 2022 | Mae hyfforddiant yn cael ei drefnu. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | mwyn gwella eu gwybodaeth a'u hymarfer o ran sicrhau nad ydym yn cyflogi, nac yn defnyddio contractwyr nad ydynt yn gweithredu'n gyfreithlon. | | | Efallai na fydd y weithred hon yn cael ei chwblhau yn unol â'r garreg filltir yn y golofn flaenorol. Mae'r risg yn isel. Y nod yw ei ddarparu yn ystod chwarter 3 a chwarter 4.<br><br>**11.09.2024**<br>Mae'r weithred hon yn cael ei throsglwyddo i'r cynllun gweithredu newydd. | |



**CYD-DESTUN**

| | |
|---|---|
| Y Ddyletswydd Prevent | Dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Atal Terfysgaeth a Diogelwch 2015. Ein nod yw: -<br><br>▪ Atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth, wrth gyflawni ein gwahanol swyddogaethau.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau priodol.<br>▪ Sicrhau bod staff yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir a fydd yn gwrthsefyll craffu.<br><br>Mae gan Fwrdd CONTEST Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn derbyn ac yn adolygu'r Proffil Gwrthderfysgaeth Lleol a bydd yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am unrhyw risg newydd/gynyddol o radicaleiddio neu eithafiaeth er mwyn gallu diweddaru'r gofrestr risg gorfforaethol. |
| Caethwasiaeth Fodern | Dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Ein nod yw: -<br><br>▪ Cyhoeddi Datganiad Blynyddol, nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi.<br>▪ Penodi Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br>▪ Hysbysu'r Swyddfa Gartref ynghylch Dioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern.<br>▪ Fel ymatebwr cyntaf, cyfeirio dioddefwyr posibl at awdurdod cymwys, (Yr Uned Masnachu Pobl Caethwasiaeth Fodern – MSHTU), drwy'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM). |

| | |
|---|---|
| | ▪ Cyfeirio unrhyw blant sydd o bosibl yn destun masnachu plant at yr Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant.<br>▪ Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.<br>▪ Sicrhau bod staff yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir a fydd yn gwrthsefyll y broses graffu.<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r agenda Llinellau Cyffuriau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgarwch Llinellau Cyffuriau Sirol, megis Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddau treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn.<br><br>Mae gan Fwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Y Dirprwy Brif Weithredwr yw'r Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol. |
| Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant | Ein nod yw: -<br><br>▪ Amddiffyn plant ac oedolion yn ein hardal a allai fod yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'n profi mathau eraill o niwed, neu y mae perygl i hynny ddigwydd iddynt, ac; -<br>▪ Atal plant ac oedolion yn ein hardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed.<br>▪ Sicrhau bod arfer diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella'n barhaus ac yn hybu canlyniadau da i blant ac oedolion a allai fod mewn perygl yn yr ardal leol.<br>▪ Amddiffyn plant a phobl ifanc yn gadarn trwy ddull aml-asiantaeth gyda phartneriaid a chymunedau.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu gofynion Strategaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yng Ngrŵp Gweithredol Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant Gogledd Cymru, a chefnogi gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol i raeadru a datblygu modelau arfer gorau o safbwynt mynd i'r afael â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Cyffuriau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgaredd Llinellau Cyffuriau Sirol, megis Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddau treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn. |
| Trais yn erbyn Merched, Cam-drin | Dyletswyddau Cyfreithiol - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015<br><br>▪ Gofyn a Gweithredu - Ymholiad cenedlaethol a dargedir ar draws yr Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dyletswydd sefydliadol i annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i |

| | |
|---|---|
| Domestig a Thrais Rhywiol | “Ofyn” i ddioddefwyr posibl mewn amgylchiadau penodol (ymholi wedi’i dargedu) a “Gweithredu” er mwyn sicrhau bod niwed o ganlyniad i drais a cham-drin yn cael ei leihau.<br>▪ Darparu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol.<br>▪ Mae'n cynnwys cyfathrebu, hyfforddi, datblygu polisi, rhannu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol, casglu ac adolygu data.<br><br>Y Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru yw’r bwrdd partneriaeth rhanbarthol: ac mae’n gweithio mewn partneriaeth er mwyn atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Ngogledd Cymru. Maent yn arwain ac yn cefnogi’r broses o weithredu’r ddeddf: gan ddatblygu, cymeradwyo a monitro’r strategaeth ranbarthol; gan sicrhau bod materion yn cael sylw strategol ac effeithiol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae’r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu’r blaenoriaethau strategol rhanbarthol o ran ymwybyddiaeth a chyflawni’r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. |



**Cyfrifoldeb Pawb**

Yn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnwys targedau Diogelu ar gyfer y flwyddyn ac yn adrodd am gynnydd yn ystod adolygiadau perfformiad corfforaethol.

**Cyfathrebu o fewn y Sefydliad**

Rhaid i’r cynrychiolwyr yn y Byrddau Rhanbarthol amrywiol y cyfeirir atynt uchod ac eraill sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i’r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol) am brif faterion a drafodwyd yn rhanbarthol: ac y mae angen ymateb lleol iddynt, ar lefel gorfforaethol. Dylai’r prif swyddogion, ar gais cadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol), baratoi diweddariadau ynghylch y ddarpariaeth, y prif faterion risg i blant ac oedolion mewn perygl, gan gynnwys coladu a monitro nifer yr atgyfeiriadau, eu natur a’r canlyniadau.

Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod Aelodau’r Cyngor ac uwch swyddogion arweiniol, aelodau eraill yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid yn cael eu briffio’n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau o ran diogelu.

Pan fo angen, darperir gwybodaeth/bwletinau/erthyglau diogelu angenrheidiol ar gyfer staff mewn deunydd cyfathrebu perthnasol i staff mewnol. Cyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Gweithredol) fydd hyn.

**Hyfforddiant**

Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu Sylfaenol, Cyffredinol neu Arbenigol ar lefel sy'n berthnasol i'w rôl. Mae gofynion hyfforddi penodol eraill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn. Bydd gan rai gwasanaethau anghenion hyfforddi penodol yn gysylltiedig â'r rolau sydd ganddynt. Ni adlewyrchir hyn yn y cynllun hwn – gan fod y ffocws ar hyn o bryd ar godi ymwybyddiaeth gorfforaethol: a chydymffurfio lle mae dysgu/hyfforddiant ar draws y sefydliad cyfan yn ofynnol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **14 Ionawr, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2024/25** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2024/25<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2024/25 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2024

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2024/25 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2024 → EBRILL, 2025
**[Fersiwn dyddiedig 19/12/24]**



**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2024 (21/05/24)** | **Mai, 2024 (21/05/24)** |
| Ethol Cadeirydd: 2024/25 | Ethol Cadeirydd: 2024/25 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 | Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 |
| | |
| **Mehefin, 2024 (13/06/24) – Ch4** | **Mehefin, 2024 (19/06/24) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2023/24 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2023/24<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2023/24 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2024/25 | Enwebu Aelod Pwyllgor ar y Panel Sgriwtini Cyllid |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2024 | |
| Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29: Gosod Tai'r Cyngor – adroddiad terfynol | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2023/24 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2024 (10/07/24) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Medi, 2024 (17/09/24) – Ch1** | **Medi, 2024 (12/09/24) - Taclo Tlodi** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2024/25 | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2023/24 | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Hydref, 2024 (16/10/24)** | **Hydref, 2024 (15/10/24) – Addysg a Datblygu Cymunedol Cynaliadwy** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24 | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2023/24 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru: Llythyr Gwiriad Gwella Gwasanaethau Oedolion a’r Cynllun Gweithredu | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Enwebu Aelodau Pwyllgor ar y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg | Menter Môn |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2023/24<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2024/25 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Tachwedd, 2024 (13/11/24) - Iechyd** |
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o’r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2024 (19/11/24) - Ch2** | **Tachwedd, 2024 (20/11/24) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| Cynllun Strategol Môn Actif | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol 2024 | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion |
| Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau Newydd | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) – Cyllideb 2025/26 (bore)** | **Ionawr, 2025 (14/01/25)** |
| Sefydlu Cyllideb 2025/26 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Medrwn Môn |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) (prynhawn)** | |
| Hunan-Asesiad Corfforaethol – diweddariad 6 mis ar gynnydd | |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2023/24 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | |
| | |
| **Chwefror, 2025 (19/02/25) – Cyllideb 2025/26** | **Chwefror, 2025 (12/02/25) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2025/26 – refeniw a chyfalaf | Polisi Iaith Gymraeg Ddiwygiedig |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai’r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Mawrth, 2025 (11/03/25) - Ch3** | **Mawrth, 2025 (12/03/25)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2023/24 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2025/2055 | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin |
| Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd | Cynllun Ynni Ardal Leol |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ebrill, 2025 (10/04/25)** | **Ebrill, 2025 (09/04/25)** |
| Arolygiaeth Gofal Cymru: Llythyr Gwiriad Gwella Gwasanaethau Oedolion a’r Cynllun Gweithredu – Adroddiad Cynnydd | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau'r Gymraeg | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynllun Strategol Coed | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Craffu ar Bartneriaethau |
| Adroddiad Cynnydd Ch4:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2024/25 (Mehefin 2025) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Mehefin-Gorffennaf, 2025) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (cytundeb cyflawn) |
| | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol (Mawrth 2026) |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Mehefin, 2025) |
| | Cynllun Strategol Tuag at Sero Net (2025/26) |
| | Archwilio Cymru: Llif allan o'r Ysbyty → mesur cynnydd (Mehefin, 2026) (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 13/11/2024) |
| | Bwrdd Trosiannol GwE (cyn 31/03/2025) |